# Y DINESYDD

Chwefror 2026 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 504 £1.50



Côr Meibion Taf yn Angladd Terry Yorath t.23


CPD Treganna t.28



Atodiad Coffa
Gwilym Roberts
t. 13-21

# Y DINESYDD

**Golygyddion**
**Eirian a Gwilym Dafydd**

***Golygydd Mawrth***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn **24 Chwefror** at:
hefinmathias@hotmail.co.uk

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Cofio Gwilym Roberts



Lledodd y newyddion trist ar led trwy sawl cyfrwng am farwolaeth Gwilym, nos Fawrth, 4 Tachwedd, wedi cyfnod o salwch byr yn Ysbyty'r Waun.

Y diwrnod canlynol roedd miloedd eraill wedi clywed oherwydd cyfeiriwyd ato sawl gwaith ar deledu, radio a'r cyfryngau cymdeithasol amrywiol.

Roedd Eirian a fi yn gyfarwydd iawn â Gwilym – yn enwedig wedi i ni olygu ein rhifyn cyntaf yn 2010 ac ymuno â'r Pwyllgor yn 2011 – Gwilym oedd ein cadeirydd yr adeg honno.

Braidd bod angen i ni amlhau geiriau yma oherwydd cawsom ni gyfle ar y Post Prynhawn, Radio Cymru, yng nghwnni'r gyflwynwraig Gwenllian Grigg i dalu teyrnged i Gwilym.

Fel soniwyd y tro diwethaf, ein bwriad oedd gwahodd nifer o'i gydnabod a'i gyfeillion i rannu atgofion amdano yn rhifyn mis Chwefror.

Diolch i bawb am ymateb mor gadarnhaol gan sicrhau bod y manylion yn ddiogel ar gof a chadw a maes o law yng ngwefan dinesydd.cymru.

Felly dyma ni yma wedi diolch yn ein papur bro am fywyd a gwaith arbennig ein cyfaill Gwilym Roberts, 1935-2025.

Gobeithio bydd y cyfan yn ysbrydoliaeth er mwyn sicrhau dilyniant a gweithwyr newydd i gynnal yr iaith a'n diwylliant yn y blynyddoedd sydd eto i ddod.

**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr.**

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**IECHYD DA**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn Natur

## *Aderyn Newydd i Gymru*

Gethin Jenkins-Jones



### Yr Hwyaden Benfras

Pedwar cant a chwe deg un math o aderyn gwahanol sydd wedi'u gweld yng Nghymru, yn ôl rhestr swyddogol Cymdeithas Adaryddol Cymru. Mae rhan swmpus o'r rhestr yn adar sy'n nythu neu'n gaeafu yma'n rheolaidd, ond mae yna rai sydd ychydig yn fwy diddorol. Ceir wyth rhywogaeth anfrodorol sydd wedi cychwyn nythu yma'n ddiweddar (yn bwrpasol neu ar ddamwain) oherwydd ymyrraeth dyn. Un o'r rhain yw'r paracît torchog sydd bellach i'w gweld yma yn y brif ddinas. Nid yw'r saith rhywogaeth arall wedi eu gweld yng Nghymru ers 1949, rhai fel y pen-gwyn diflanedig - a fydd byth yn cael eu gweld yma eto. Mae dwy o'r rhywogaethau hyn - y Tingoch Moussier (o Affrica) a'r Telor Canada (o Ganada) - eto i'w gweld yn un o wledydd eraill Prydain. Wedi dros ganrif o bobl yn adara yng Nghymru, achlysur gweddol brin bellach yw gweld aderyn newydd. Ond, y gaeaf hwn, cyrhaeddodd hwyaden newydd, ac nid ond un unigolyn, ond dau!

Mae'r Hwyaden Benfras *(Bufflehead)* yn hwyaden fach weddol giwt sy'n nythu yn llynnoedd boreal Canada ac Alasga, cyn mudo i aeafu ger arfordiroedd yr Unol Daleithiau. Mae'n berthynas weddol agos at yr hwyaden llygaid aur sy'n gaeafu yma yng Nghymru ac, fel yr hwyaden honno, maent yn hoff o nythu mewn tyllau yn y coed - yn enwedig rhai a gloddwyd gan gnocell-y-coed flynyddoedd ynghynt. Fel pob hwyaden, nid ydynt yn ddibynnol ar gân i ddenu partner, ond symudiadau corfforol, ac mae rhai o'r adar hyn yn weddol ddoniol i'w gwylio. Yn aml mewn heidiau mawr ar ddiwedd y gaeaf, mae gwrywod yr hwyaden benfras yn estyn eu gyddfau lan a lawr dro ar ôl tro am sawl eiliad, ar gyflymder mor gloi mae'n syndod nad ydynt yn teimlo'n benysgafn yn y broses!

Cyn eleni nid oeddwn wedi gwir werthfawrogi prydferthwch yr hwyaden hon. Mae'r gwrywod yn bennaf yn ddu a gwyn, ond mae eu pennau hefyd yn gyfoeth o liwiau sgleiniog gwyrdd a piws, yn enwedig yng ngolau'r haul. Mae'r rhan fwyaf o'r 22 unigolion sydd wedi'u cofnodi ym Mhrydain hyd hyn yn wrywod, o bosib oherwydd bod y benywod yn llawer llai lliwgar.

Nid oeddwn erioed wedi gweld yr aderyn yma cyn y gaeaf yma, felly pan ddaeth y newyddion bod un (gwryw) yn nofio ar y môr ger y Parlwr Du yn Sir y Fflint fis yn ôl, roeddwn yn weddol chwilfrydig i weld a fyddai'n aros dros y gaeaf, gan roi'r cyfle i mi ei gweld. Diflannodd y diwrnod wedyn ond, yn ffodus i mi, fe wnes weld benyw yr wythnos wedyn tra'n yr Iseldiroedd, ymysg haid anferth o Hwyaid Copog, Pengoch a Phenddu. Yna, daeth mwy o newyddion annisgwyl o gwmpas y Nadolig. Ail-ddarganfuwyd aderyn Sir y Fflint ym Mae Moryd Caernarfon, ac fe wnaeth benyw newydd droi i fyny am ddiwrnod yn llyn Kenfig. Daeth yn amlwg i'r gymuned adarwyr bod nifer fawr ohonynt wedi hedfan i Ogledd Orllewin Ewrop eleni. Nid oes syniad pam, ond yn sicr mae hyn wedi achosi llawenydd annisgwyl i laweroedd, sy'n ei gweld am y tro cyntaf.

Es i i ymweld â'r aderyn yn y Foryd yng nghanol mis Ionawr. Roedd yn brysur yn bwydo yng nghwmni Chwiwell, ac roedd yn hyfryd i weld aderyn mor brin a deniadol. Mae'r un yn Kenfig bellach wedi mynd, ond rhaid ei bod yn weddol agos, felly cadwch lygaid barcud wrth gerdded rownd eich llyn cyfagos dros yr wythnosau diwethaf!

Mae ffeindio aderyn prin, yn enwedig un sy'n newydd i'r wlad, yn foment arbennig iawn - fel dod o hyd i drysor coll. Mae'r posibilrwydd o ddarganfod rhywbeth prin yn ddigon i danio'r dychymyg o beth sy'n bosib wrth fynd allan i adara. Tybed beth fydd yr aderyn newydd nesaf ar restr adar Cymru? Ewch allan i fwynhau adar, ac efallai taw chi fydd yn ffeindio yr aderyn newydd nesaf!



***Hwyaden benfras wryw***
***Llun: Rhys Archer***



***Hwyaden benfras fenyw***
***Llun: Saffron Forrester***

# Pobol y Rhigwm

Dydw i ddim yn gwybod a gafodd y rhigymwyr arferol eu taro gan y *January blues* eleni (tybed a oes term Cymraeg am hynny – yn sicr ddim Gleision mis Ionawr)! Dim ond dau ymgais ysgafn, ar wedd y limrig a ddaeth i law ar drothwy'r Mis Bach, felly Colofn Fechan fydd hi'r tro hwn! Mae'n dda gyda fi ddweud bod y naill limrigwr a'r llall wedi osgoi'r anfadrwydd hwnnw, y 'limrig difrifol'! Fel y gŵyr selogion y golofn hon, does dim diddordeb gyda'r beirniad yn y cyfryw bethe! Fodd bynnag, gan ei bod hi *yn* fis Ionawr o wynt a glaw (wrth deipio), mae'r beirniad yn ddigon piwis i atgoffa limrigwyr, neu yn wir unrhyw un sy'n rhoi cynnig ar benillion mydr ac odl, i gyfri'r sillafau, a darllen pob ymgais ar lafar. Y gwir plaen amdani yw bod unrhyw bennill sy'n darllen yn anwadal yn colli mymryn o'i sglein. Dyna oedd y diffyg pennaf yn y ddau limrig y tro hwn. Mae'n deg dweud, hefyd, bod un yn rhagori ar y llall:

Bob Ionawr mae pwysau i'w golli,
ac ymrwymiad i beidio â rhegi,
ond ar benblwydd dy wejen,
os pobi letysen,
bydd pethe'n wahanol eleni...

*Ffiniau*

Mae dwy linell agoriadol y limrig hwn yn ddatganiad o addunedau cyffredin iawn a wneir dros y Calan. Mewn ymgais i wireddu'r gynta, mae'r truan o dan sylw'n *pobi* letysen i'w gariad, sy'n arwain at dorri'r ail adduned! Ydy, mae e'n ddoniol! Gobeithio mai nage pryd Santes Dwynwen oedd y letysen bob! Mae angen i *Ffiniau* wylio bod ei limrigau'n llifo'n esmwythach. 9-9-6/7-6/7-9 yw'r patrwm sillafau confensiynol, ond 9-10-7-6-9 sy yma. At hynny, dyw gosod ambell linell chydig nes mewn o'r marjin ddim yn newid sylwedd unrhyw bennill. Beth bynnag, wedi dweud hynny i gyd, diolch i *Ffiniau* am limrig gwirioneddol ddoniol. Diolch am odl fewnol, hefyd!

Y llynedd gofynnes i Joni
a fydde fe'n moyn fy mhriodi.
Sai'n lico tro pedol,
ond ar ffindo fy sbectol,
bydd pethe'n wahanol eleni.

*Golwg 2*

Fel limrig *Ffiniau* mae hwn, hefyd, yn codi gwên. Dyw hi ddim yn hawdd sgrifennu pethe doniol, cofiwch, mae hynny'n ddawn. Llwyddodd *Golwg 2*, a does dim angen i fi grynodebu, mewn gwirionedd, achos mae'r ergyd yn gwbwl amlwg, er iddo gael ei fynegi'n glyfar o gynnil! Yr ymadrodd 'sai'n lico tro pedol' yw'r glud crafog syn dal hwn at ei gilydd. Mae angen hepgor sill yn y bumed linell, fe fydde 'ond ffindes fy sbectol' yn taro deuddeg. Mae gan *Golwg 2* odl fewnol hefyd, sy'n cymell pwynt bonws, wrth gwrs! Gan fod hwn yn llai herciog na limrig *Ffiniau*, ac yn sicr wedi taro'r nod o ran ei ffraethineb, *Golwg 2* sy'n mynd â hi y tro hwn.

Hyderaf y bydd y rhigymwyr yn dechrau ystwyrian o'u gaeafgwsg awenyddol ym mis Chwefror, ac y cawn ni doreth o gynigion y tro nesaf. Gobeithio bod y testun yn gymhellol a, chofiwch, *cyfrwch y sillafau 'na*!

**Enillydd Rhagfyr**
**Alan Iwi, Didcot**

**Cystadleuaeth Chwefror**
**Englyn** neu **driban**
o groeso i'r gwanwyn

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Chwefror:*
*eirianagwilym@gmail.com Gwobr Tocyn llyfr: £10*

# Cymrodorion Caerdydd

'Bywyd mewn Llyfrau' oedd testun Jon Gower ar 5 Rhagfyr.

Pleser oedd gwrando ar y llenor toreithiog yn trin a thrafod gwerth darllen yn ystod bore oes.

Olrheiniodd Jon ei daith at fagu blas at lyfrau gan gychwyn â storiwr mawr ei fagwraeth sef ei dad-cu, yr hen goliar Thomas John Gower. Hwn yw y cyfarwydd yn y nofel *Y Storïwr*. Nododd bwysigrwydd ei ymweliadau rheolaidd â llyfrgell Y Pwll yn y blynyddoedd ffurfiannol, ble ddarllenodd Jon bopeth yno.

Nid syndod i Jon fynegi mewn traethawd ar gyfer ei *Eleven Plus* ei fod yn awyddus i fod yn sgwennwr pan ddeuai'n oedolyn.

Difyr oedd clywed pa lyfrau fu'n ddylanwad yn ei flynyddoedd cynnar. Darllenodd drioleg *Lord of the Rings* ar Ynys Sgogwm yn 14eg oed gan ddarganfod ar yr un pryd waith y naturiaethwr R.M.Lockley.

Dysgwyd hefyd mai'r stori fer fyddai dewis ffurf ysgrifennu Jon petai'n gorfod glynu at un cyfrwng yn unig i ennill bywoliaeth. Nid yw hyn yn syndod gan gofio ei fod wedi cyhoeddi pum casgliad yn barod.

Un gyfrol y mae'n ymflachio iddo fedru ei sgwennu a'i chyflwyno ddiwrnod cyn y dedlein hollbwysig yw The Story of Wales. Cyflawnodd hynny mewn un wythnos ar bymtheg! Y gamp honno fyddai'n cael ei nodi ar ei garreg fedd meddai Jon a thafod yn ei foch!

Trysor o noson yn wir, yn llawn o straeon difyr.

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter @Dinesydd Cdydd, ar Facebook www.facebook.com/Ydinesydd,**
**ar Instagram dinesyddcaerdydd ac ar y we www.dinesydd.cymru**

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

**‘Gwifrau’n Galw’**

Pleser fu gwrando ar Rowland Wynne yn sôn am gyfraniad allweddol Syr William Henry Preece i ddatblygiad y telegraff a’r teleffon yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ganwyd Preece yng Nghaernarfon yn 1834 a datblygodd ei ddiddordeb a’i ddawn mewn trydan a pheirianneg telegraffig tra’n fyfyriwr yn Ngholeg y Brenin, Llundain. Mwynhaodd yrfa ddisglair gan gynnal swyddi fel peiriannydd ar y lefel uchaf gyda’r Swyddfa Bost.



Torrodd dir newydd mewn systemau telegraff di-wifr trwy gynnal arbrofion ar anfon negeseuon e.e. o Benarth i Ynys Echni ac ar draws y Fenai. Llwyddodd Preece, drwy gefnogaeth y Swyddfa Bost, i hyrwyddo a chefnogi arbrofion yr enwog Guglielmo Marconi. Preece hefyd gyflwynodd y teleffonau cyntaf ym Mhrydain, sef teleffonau o batent Alexander Graham Bell.

Roedd hwn hefyd yn gyfnod pan oedd peirianwyr ac arloeswyr rheilffyrdd yn trawsnewid tirwedd Cyrmu. Yn sgìl hyn, bu cyfraniad Preece i welliannau a dyfeisiadau systemau signal y rheilffyrdd yn allweddol i sicrhau teithio mwy diogel ar y trenau.

Ymysg nifer o anrhydeddau eraill, urddwyd ef yn Farchog yn 1899 fel cydnabyddiaeth o’i waith arloesol yn y maes cyfathrebu.

Ymfalchiau Preece yn yr iaith a’r diwylliant Cymreig ac ef oedd cadeirydd cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Yn 1908 cyflwynodd Preece ffonograff i’r Gymdeithas, anrheg oddi wrth ei ffrind Thomas Edison. Hwylusodd y dechnoleg hon y gwaith o gasglu a recordio sain yr alawon i’w diogelu ar gof a chadw.

Diolch i Rowland Wynne am roi mynediad i ni i fywyd a gwaith y Cymro balch ac arloesol hwn a gynrychiolai wyddoniaeth fodern a diwylliant Cymreig ei oes ar ei orau.

---

MENTER IAITH BRO MORGANNWG

GŴYL FACH Y FRO

“Gwnewch y pethau bychain” yw geiriau mwyaf adnabyddus ein nawddsant, ac maent hefyd yn greiddiol i’n cenhadaeth yma ym *Menter Iaith Bro Morgannwg* wrth greu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio’r Gymraeg ar hyd a lled y sir.

Rydym eisoes wedi ailafael yn *Cwis Bach y Fro*, ein cyfres o gwisiau teithiol misol, gyda noson hyfryd a bywiog yn Foxy’s Deli ym Mhenarth. Bydd nosweithiau pellach yn dilyn yn y Bakehouse, Llanilltud Fawr; Canolfan Palmerston, Y Barri; a The Three Horseshoes, Y Barri.

Mae cerddoriaeth o bob math yn bwysig i ni, a pha ffordd well o ddechrau taith *Lleuwen* o amgylch Cymru na thrwy gynnal noson arbennig yn 96 Degrees, Y Bont-faen. Yn genedlaethol, mae *Dydd Miwsig Cymru* ym mis Chwefror yn denu cryn sylw, ac er bod Dydd Gwener y 13eg yn anlwcus i rai, i ni mae’n gyfle perffaith i gynnal gig yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae’n gyfle euraidd i ddisgyblion fwynhau perfformiadau gan rai o dalentau ifanc yr ardal sy’n creu ac yn perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg. A byddwn cyn bo hir yn cyhoeddi cyfres o gigs rheolaidd fydd yn cael eu cynnal yn gyson ledled y Fro.

Uchafbwynt ein calendr blynyddol yw Gŵyl Fach y Fro – y dathliad unigol mwyaf o’r Gymraeg ym Mro Morgannwg – sy’n denu bron i 9,000 o bobl i Ynys y Barri ym mis Mai. Mae’r gwaith o drefnu artistiaid ac ambell syrpreis newydd eisoes ar y gweill, gan gynnwys ymestyn elfennau o’r ŵyl i ail ddiwrnod wrth i ni gydweithio â Run 4 Wales, trefnwyr 10K Ynys y Barri ar y diwrnod canlynol. Cofiwch nodi’r dyddiadau: 16 a 17 Mai.

Mae dathlu ein Cymreictod wrth galon ein bodolaeth, ac eleni, dros benwythnos Gŵyl Ddewi, byddwn yn cydweithio’n agos â Chyngor Tref y Barri ar y dydd Sadwrn i drefnu gweithgareddau ar y sgwâr y tu allan i Neuadd y Dref; a chyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i groesawu’r cyhoedd i fwynhau perfformiadau a gweithdai Cymreig yng Ngerddi Dyffryn.

Soniwyd ar y dechrau am “wneud y pethau bychain”, ac mae ein sesiynau Amser Stori i blant dan 5 oed; cynlluniau chwarae Bwrlwm dros wyliau’r ysgol; gweithdai actio, canu, creu gemau fideo a robotics; teithiau tywys a sesiynau i drafod cerddi a gwyddoniaeth, yn ogystal a’n hymwneud â siaradwyr newydd i gyd yn mynd o nerth i nerth. Cewch hyd i’r manylion diweddaraf ar ein gwefan a’n cyfryngau cymdeithasol.

Dewch gyda ni ar ein siwrnai i feithrin a chryfhau’r Gymraeg yn y Fro.

*Aled Wyn Phillips*
Rheolwr Gwasanaethau

# Merched y Wawr Bro Radur

**Ruth Shelley – Artist Gwydr**

Gyda dathliadau'r Nadolig wedi darfod a'r addurniadau i gyd yn ôl yn yr atig am flwyddyn arall, hyfryd oedd dod at ein gilydd ar ddechrau Ionawr a chawsom wledd yn gwrando ar Ruth Shelley, sy'n artist lliw yn trafod ei gwaith a'r ysbrydoliaeth tu cefn i'w darnau.

Un o Ystumtuen ger Ponterwyd yw Ruth a thirwedd mynyddig gogledd Ceredigion a'i arfordir yn ysbrydoliaeth i'w gwaith. Tecstiliau oedd ei chariad cyntaf a chwiltiau lliwgar ei nain yn rhan annatod o'r cariad hwnnw. Dyna'i phwnc yn y coleg ond daeth tro ar fyd ar ôl teithio yn yr India a de-ddwyrain Asia i ymchwilio i liw a thecstiliau. Roedd wedi darganfod gwydr ac ers pum mlynedd ar hugain bellach dyna ei harbenigedd.



Mae gweld golau yn dod trwy wydr lliw yn rhoi gwefr iddi a cheisio dal y wefr honno a wna wrth lunio bowlenni a fasys lle mae'r lliwiau amrywiol yn ymdoddi'n naturiol i'w gilydd fel yn ein tirwedd. Ond tu cefn i'w chreadigaethau y mae wythnosau a misoedd o waith ymchwil i ddarganfod sut y mai gwydr twym yn ymestyn o dan ddylanwad disgyrchiant mewn odyn.

Wrth greu y mae Ruth yn ymasio haenau o stribedi gwydr i greu un haen cyn ei dorri a'i sgleinio a'i sgwrio â thywod. Mae pob darn terfynol wedyn yn dal hanfod y tirlun a'i ysbrydolodd.

Gan gadw'i golwg ar gynaladwyedd mae Ruth yn sicrhau bod unrhyw wydr wast o'r broses yn cael ei ail-ddefnyddio i greu darn arall.

Enillodd wobrau lu gan gynnwys un o wobrau y British Glass Biennale yn 2015 a'r People's Prize for Contempory Glass. Y mae'n arddangos a gwerthu ei chreadigaethau yn siop Crefftau yn y Bae ac Oriel Makers Penylan.

# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

A hithau'n fis Chwefror, mae'r Nadolig yn swnio'n bell yn ôl i rai ohonom, siŵr o fod. Ond i aelodau Cylch Cinio Caerdydd, fe erys un noson yn nechrau Rhagfyr yn fyw iawn yn y cof. Roedd hwn yn gyfarfod unigryw am y rheswm mai dyma'r tro cyntaf i'r gwesteion arbennig gynnal noson gyda'i gilydd. Er bod Huw Foulkes a Ruth Erin Roberts wedi ymddangos ar lwyfannau ledled Cymru mewn corau a phartïon gwahanol, dyma eu hymddangosiad cyntaf i gynnal noson fel deuawd.



*Huw Foulkes, Carys Tudor Williams a Ruth Roberts*

Wrth eu cyflwyno, cyfeiriodd y Cadeirydd, Carys Tudor Williams, at y tebygrwydd yng nghefndir y ddau. Bu eisteddfota a chynnal cyngherddau yn rhan allweddol o'u magwraeth, a'r ddau, yn eu gwahanol gylchoedd, yn enwau cyfarwydd am eu llwyddiant ym myd cerdd dant ac alawon gwerin mewn eisteddfodau bach a mawr.

Dewisodd y ddau fynd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd a dilyn cwrs newyddiaduraeth fel rhan o'u gradd. Aeth Huw ati i sefydlu Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, ac ef oedd yr arweinydd cyntaf. Yn nes ymlaen, daeth Ruth hithau yn arweinydd ar yr un côr, cyn iddyn nhw symud ymlaen i fod yn aelodau blaenllaw o Gôrdydd.

Erbyn hyn, Huw yw Prif Olygydd Newyddion S4C, ac mae Ruth Erin hefyd yn mwynhau gyrfa lwyddiannus fel newyddiadurwr yn y BBC. Yr hyn a gawsom yn eu cwmni oedd ychydig o sgwrsio cynnes a diymhongar gan y ddau yn eu tro yn sôn am y dylanwadau a fu arnyn nhw. Cawsom y pleser o fwynhau detholiad o ganeuon a charolau Nadoligaidd gan Ruth Erin fel unawdydd, a'i dewis yn deyrnged i'w magwraeth a'i chynhysgaeth.

**Dathliad Arbennig**

Mae Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed eleni. I nodi'r achlysur, cynhelir cinio arbennig Nos Lun, 9 Mawrth, yng ngwesty'r New House. Bydd adloniant wrth gyrraedd ac, wedi'r pryd, cawn ein diddanu gydag ychydig hanesion am y Cylch Cinio gan Keith Bush, Prif Gwnselydd Cyfreithiol ein Cynulliad rhwng 2007 a 2012 ac un a weithiodd mor galed i osod y Senedd ar dir cyfreithiol cadarn.

Dewch i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant a'n parti pen-blwydd. Os ydych eisoes ar ein rhestr aelodau, na phoener, fe gewch yr holl fanylion yn y dull arferol. Pe hoffai unrhyw gyn-aelod neu rywun o'r newydd ymuno â ni, anfonwch nodyn at Paul Morgan gan ddefnyddio'r cyfeiriad cylch.cinio@gmail.com

## Y Stafell Fyw -
## Agor Canolfan Newydd

Dathlwyd datblygiad cyffrous newydd yng nghapel y Crwys ar 26 Hydref. Mae'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill wedi ei ail strwythuro ac wedi derbyn y Stafell Fyw; Cynnal a Lle i Fyw (ar lein) fel partneriaid.

**Cyflwyniadau**

Cafwyd anerchiad dadlennol gan yr Athro a'r Fonesig Ilora Finlay yn nodi ffigyrau brawychus am effaith alcohol ar y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ynghyd â negeseuon cefnogol gan noddwyr eraill – Megan Jones; Lleuwen Steffan a'r Farwnes Elan Closs Stephens, a chyfraniadau gan rai a brofodd adferiad trwy gymorth a gofal cariadus y Stafell Fyw.

Esboniwyd cefndir y datblygiad newydd hwn gan y Parchg Denzil John (Cadeirydd Y Cyngor). Diolchwyd i Henaduriaeth Morgannwg Llundain, Eglwys Bresbyteraidd Cymru am ei chefnogaeth i Eglwys y Crwys i'w galluogi i drawsnewid rhan o'r adeilad, a hefyd am ei grant o £25,000 i'r Stafell Fyw er mwyn cychwyn y gwaith yn y lleoliad newydd.

Nododd Arwel Ellis Owen (Cadeirydd Cyfeillion y Stafell Fyw) mai rôl y Stafell Fyw yw gweithredu fel canolfan adfer yn y gymuned. Bydd cymorth ar gael i unrhyw un ag unrhyw fath o ddibyniaeth gan groesawu unrhyw un sydd angen cymorth. Mae'r cymorth ar gael mewn sesiynau un wrth un, wyneb yn wyneb, neu'n rhithiol, a chyfle i rai barhau eu hadferiad trwy fod yn rhan o grwpiau sy'n cyfarfod mewn gwahanol rannau o Gymru yn ôl y galw. Mae'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, heb derfyn amser, ac yn rhad ac am ddim. Gwnaeth apêl am gymorth ariannol oherwydd bod angen tua £35,000 bob blwyddyn i gynnal y gwaith arloesol hwn.

Cyfeiriodd Wynford Ellis Owen (Prif Weithredwr) at enghreifftiau penodol o'r rhai sydd wedi derbyn cymorth, a thros y blynyddoedd mae'r Stafell Fyw wedi arbed bywydau llawer, ac wedi cynorthwyo degau o bobl i brofi adferiad llwyr.

Cafwyd lluniaeth helaeth yn y festri drwy garedigrwydd chwiorydd Y Crwys a mynychwyr y Stafell Fyw.

**Cymanfa Ganu**

Gyda'r hwyr cynhaliwyd Cymanfa Ganu yn y Tabernacl, Yr Ais i ddathlu'r lansiad. Cafwyd canu ysbrydoledig dan arweiniad Eilir Owen Griffiths gyda David Geoffrey Thomas wrth yr organ. Agorwyd y Gymanfa gan John Derek Rees a dystiolaethodd i gyfraniad clodwiw Wynford drwy Cynnal (y gwasanaeth i Weinidogion, Clerigwyr a Gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd) i'w adferiad personol ef ei hun. Cafwyd eitemau gwefreiddiol gan gorau lleol.

**Cefnogaeth Ariannol**

Derbyniwyd yn agos i £2,000 mewn rhoddion yn ystod y dydd a diolch am y rhoddion a dderbyniwyd eisoes. Ond mae'r angen dybryd am gefnogaeth ariannol sylweddol yn parhau. Os oes gennych unrhyw gysylltiadau â mudiadau neu elusennau ac am drafod sut y gallwch gefnogi, byddai Wynford yn falch iawn o glywed gennych. Neu os ydych am roi rhodd bersonol dyma fanylion banc Y Stafell Fyw. Diolch am bob cyfraniad

Banc: Metro    Enw'r Cyfrif: CACE / CAOD
Côd Didoli: 23-05-80    Rhif y Cyfrif: 54892675
Math o gyfrif: Busnes    Cyfeirnod: Enw'r Rhoddwr

**Cysylltu**

Gwefan:www.stafell-fyw.uk.  Ffôn: 07796 464 045
Ebost: wynford@recovery-council.org.
Cyfeiriad: Eglwys Y Crwys 77, Heol Richmond, Caerdydd, CF24 3AR. Mae croeso i unrhyw un ymweld â'r Stafell Fyw.

# Merched y Wawr Caerdydd

Roedd Rhagfyr yn fis prysur i bwyllgor MyW Cangen Caerdydd. Roedd Gwasanaeth Nadolig Rhanbarth y De-ddwyrain dan eu gofal eleni ac ar 7 Rhagfyr cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed. Cafwyd cyfraniadau gan aelodau'r gangen, y canghennau eraill, disgyblion Bro Edern, Marion Löffler, Llywydd y Rhanbarth a'r Llwydd Cenedlaethol. Darparwyd lluniaeth ar ôl y gwasanaeth ac yn ôl yr adborth, bu'r achlysur yn llwyddiant mawr.

Ar 9 Rhagfyr, cawsom ein difyrru gan Gôr Canna dan arweiniad bywiog Delyth Medi. Mae'r Côr yn adnabyddus am ei weithgarwch a'i lwyddiannau, yn cynnwys ennill y gystadleuaeth Alaw Werin yng Ngŵyl Gerdd Dant eleni. Mwynhaom amrywiaeth o ganeuon â naws Nadoligaidd ac eitemau hyfryd gan yr unawdydd, Eiriana Jones-Campbell, a'r ddwy gantores ifanc, Elen Dafydd Roberts a Jini Grug Dobson.



Ein gŵr gwadd ar gyfer cyfarfod cyntaf 2026 oedd Gethin Russell-Jones sydd wedi cyhoeddi llyfr o'r enw *My Secret Life in Hut 6* ar y cyd â'i fam, Mair. Ganwyd Mair ym Mhontycymer yn 1917 a graddiodd mewn Cerddoriaeth ac Almaeneg ym Mhrifysgol Caerdydd cyn yr Ail Ryfel Byd. Yn 1941 cafodd alwad i weithio i'r Llywodraeth ym Mharc Bletchley. Ei gwaith oedd ceisio datgodio negeseuon y peiriant Enigma drwg-enwog. Pan ddechreuodd weithio yn 'Nissan Hut 6', dim ond 200 gant o weithwyr oedd yn Bletchley ond erbyn 1945 roedd yna 10,000, cymaint oedd pwysigrwydd y gwaith hwn. Roedd pawb ar eu llw i beidio â sôn wrth neb am natur eu gwaith ac fe gadwodd Mair ei chyfrinach nes iddi gyrraedd ei 90au. Doedd dim syniad gan ei theulu am ei chyfraniad at ennill y Rhyfel. Bellach mae wedi ei chydnabod yn un o'r 100 o Fenywod Blaenllaw Cymru. Ac er mawr syndod, clywsom fod rhieni aelod arall o'r gangen, Deborah Jones, wedi cwrdd yn Bletchley hefyd! Mae sgwrs ddifyr Gethin wedi'n hysbrydoli i ddarllen y llyfr ac ymweld â Bletchley Park.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



*Llyfrau*

## Gwilym Dafydd

**Llyfrau, siopau llyfrau a llyfrgelloedd**

Dych chi'n mwynhau darllen llyfrau? Dych chi'n prynu llyfrau newydd neu eu benthyg o lyfrgelloedd? Un cwestiwn amlwg yw hwn: Pa fath o lyfrau dych chi chi'n mwynhau darllen?

Yn ystod misoedd Rhagfyr ac Ionawr dwi wedi prynu a benthyg sawl llyfr a dweud y gwir. Dwi byth ar fy ngorau ym mis Ionawr ond fel arfer mae'r hwyliau'n codi ar 1 Chwefror! Efallai bydd eleni yn eithriad oherwydd os byw ac iach bydda i'n cyrraedd oed yr addewid ar 25 Chwefror. Rhaid diolch i fy rhieni fy mod i yma yn y lle cyntaf!

Dwi wastad wedi mwynhau yr ochr hanesyddol o bethau – wedi astudio Hanes a Hanes Cymru yn Aberystwyth, dros hanner canrif yn ôl erbyn hyn.

Dwi'n mwynhau darllen cofiannau a hunangofiannau – yn y ddwy iaith ac yn arbennig yn y Gymraeg. Wn i ddim yn union sawl cyfrol felly sydd gen i ar y silffoedd gan gynnwys hunangofiant diddorol y diweddar Gwilym Roberts.

Os digwydd eich bod yn weddol newydd i'r byd siarad Cymraeg yna mae'n bosibl na fyddwch yn gwybod rhyw lawer amdano. Ond gobeithio gwnewch droi at sawl tudalen sy'n sôn amdano yma y tro hwn. Ac os na fydd hynny yn ddigon wel ewch ati i brynu'r hunangofiant neu fenthyg copi o lyfrgell!

Mae'n amlwg ei bod hi'n bwysig ein bod yn gwneud ymdrech i gefnogi ein llyfrgelloedd a'n siopau llyfrau. Maen nhw wedi derbyn tipyn o sylw ar y cyfryngau yn ystod mis Ionawr.

Bu Jo Knell, Siop Cant a Mil, yn sgwrsio'n fyw gyda Garry Owen ar Dros Frecwast, Radio Cymru, a gwneud cyfweliad ar gyfer rhaglen Newyddion 7.30, S4C.

Wedi galw yno i brynu carden Santes Dwynwen i chi'n gwybod pwy a phrynu dwy nofel a dyma roi plwg yma i'r cerddor Cefin Roberts – dywed ar y clawr 'Reiat o nofel i oedolion – Dant am Ddant' hefyd Sioned Wiliam sef '60 Rhywbeth' – rhaid i fi ddarllen hon erbyn 25 Chwefror! Yno yn Cant a Mil rhoddodd Jo gopi o adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar: *'Rôl Ddiwylliannol a Chymundeol Siopau Llyfrau Cymru.'* Mae hwn yn adroddiad ymchwil gan Gymdeithas Llyfrwerthwyr y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, Ionawr 2026.

Er gwybodaeth mae Cant a Mil a Llyfrau Griffin Penarth yn amlwg yn yr adroddiad. Mae'r ddwy siop yma ac eraill yn gwerthu copiau cyfredol o'r *Dinesydd*.

Diolch am ein siopau annibynnol ac awn draw yno i'w cefnogi pan fydd cyfle.

**Gair ar y diwedd**

A dyma luniau o ddigwyddiadau cymdeithasol diweddar: taith gwylio adar misol yn Cronfeydd Dŵr Llanisien, bore Sadwrn, 3 Ionawr a chlonc misol yn neuadd Eglwys Dewi Sant, bore Sadwrn, 17 Ionawr.







**I gofio yr annwyl Sulwyn Thomas**

Un gwylaidd Radio Glangwili – hen gawr
Diguro'r tonfeddi'n
Dwyn o hyd ei wên i ni
A'i siarad i'w drysori.

*Alun Tobias*

*Llun: BBC Cymru Fyw*

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Gall dechrau Blwyddyn Newydd ysgogi pobl i ail-edrych ar sawl agwedd o'i bywyd, gan gynnwys materion ariannol. Dyma rai materion i chi ystyried ar ddechrau 2026:

1. Os nad oes ganddoch chi ***ewyllys gyfredol***, bydd eich ystâd yn cael ei rannu yn unol â chyfreithiau diffyg ewyllys (*'intestacy'*) sydd, yn y bôn, yn dilyn y llinell waed. Gall partneriaid di-briod dderbyn dim tra gall aelodau'r teulu elwa beth bynnag yw'ch dymuniad. Bydd yna lanast i'ch teulu geisio ddatrys.
2. Os oes ganddoch chi asedau sylweddol, mae angen i chi gynllunio, neu o leiaf fod yn ymwybodol, o'ch ***sefyllfa treth etifeddiaeth***. Gall y newidiadau sydd ar droed i ganllawiau treth etifeddiaeth ar bensiynau (o fis Ebrill 2027) ac asedau amaethyddol a busnes (o fis Ebrill 2026) effeithio ar eich cynlluniau. Mae Huw ar gael ar gyfer adolygiadau manwl neu gwiriwch hyn gyda'ch cyfreithiwr/cyfrifydd presennol.
3. Set arall o ddogfennau pwysig i'w trefnu, yn enwedig ar gyfer unigolion sydd wedi cyrraedd, neu sydd dros, oedran pensiwn yw ***ffurflenni pŵer atwrnai ariannol ac iechyd*** sy'n caniatáu i'ch teulu/ffrindiau agos i ofalu am eich iechyd a'ch materion ariannol os byddwch yn mynd yn sâl.
4. Ydych chi wedi gwneud ***rhestr o'ch asedau ariannol*** ac yw'ch perthnasau/ffrindiau agosaf yn gwybod ble mae'r rhestr yn cael ei gadw? Mewn achos anffodus o farwolaeth sydyn neu analluogrwydd bydd hyn o leiaf yn sicrhau bod rhestr o'ch holl asedau ar gael i'ch ystâd.
5. Beth am eich ***asedau anariannol***, fel eich ffôn clyfar (gan gynnwys lluniau, negeseuon, ayyb)? Os oes gennych ddyfais Apple, bydd Apple yn darparu mynediad i unigolyn penodol os ydych chi'n ychwanegu ***Cyswllt Etifeddiaeth*** (*'Legacy Contact'*). Yna, gall yr unigolyn yma gael mynediad at y data sydd wedi'i storio yn eich cyfrif Apple ar ôl eich marwolaeth.
6. Gwiriwch eich ***cofnod Yswiriant Gwladol*** a ***rhagolwg o'ch Pensiwn Gwladol*** ar wefan Gov.uk i gywiro unrhyw wallau nawr, cyn i chi ymddeol.
7. Ydych chi'n talu am nifer o wahanol fathau o ***yswiriant***? Efallai bod ganddoch chi bolisi yswiriant cartref da, ond hefyd wedi cymryd opsiwn yswiriant pan wnaethoch chi brynu eitemau fel ffôn neu declyn. Gwiriwch bolisi yswiriant eich cartref yn fanwl i sicrhau eich bod yn osgoi yswiriant deuol (*'dual-insurance'*) ac hefyd bod ganddoch chi ddigon o yswiriant ar gyfer eich anghenion.

*Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!*

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huw aledaccounts.comneu 029 206945245*

# Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr


Daeth canghennau'r de-ddwyrain ynghyd ddechrau Rhagfyr i fwynhau dathliad Nadolig yng nghwmni Côr Canna a ffrindiau o dan arweiniad medrus Delyth Medi gyda Mair Long yn cyfeilio. Nododd Delyth bod y côr yn dathlu 30 mlynedd ers ei sefydlu a bod nifer o'r aelodau yno o'r cychwyn cyntaf.  Cawsom noson fendigedig yn eu cwmni, gwledd i'r glust yn gwrando ar leisiau cyfoethog a swynol merched Canna yn canu cerdd dant, darnau clasurol, traddodiadol a charolau i ni gyd ymuno yn y canu.


Cafwyd hefyd eitemau penigamp gan Eirianna sydd wrthi yn hyfforddi ar y cwrs opera yn y Coleg Cerdd a Drama yn ogystal a deuawdau gan Elen a Jini dwy o ddisgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr, sydd eisoes wedi ennill sawl gwobr yn yr Eisteddfod a sydd yn manteisio ar bob cyfle i berfformio gyda chefnogaeth Delyth.

Diolchodd ein Cadeirydd Eiry i Gangen Caerdydd am gynnal y gyngerdd yng nghapel y Methodistiaid Cyncoed ac i'w haelodau am drefnu lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson. Nododd bod Merched y Wawr yn genedlaethol wedi dewis cefnogi elusen Ymchwil Canser Cymru – Canser y Fron a braf yw nodi y casglwyd £383 ar ddiwedd y noson, cychwyn arbennig i'r ymgyrch codi arian y byddwn yn cynnal fel canghennau ar draws y rhanbarth dros y flwyddyn nesaf.



## Rhif: 259




**Ar Draws**
7.Mae wy Non yn troi'n aer (5)
8.'----- -----, pa beth a welaf draw?
Diwedd a braw yr hollfyd' (ef anad) (3,4)
9. Och! Ai Sul prysur sy'n dda i ti? ((7)
10.Credo ffrwydrol (5)
12. Cael anian y mart yn y tŷ wrth y mor (3-1-6)
15. Dyma'r lle i wlychu'n ddiarhebol (2,1,4,3)
18. Lle cyffyrddus sy'n swnio'n boenus (5)
19. Llys barn a set i'r teulu efallai (7)
21. Amgylchu yr arch mewn gwae (7)
22. Gwasgu'r dirprwy am arian (5)

**I Lawr**
1. Yn grac ymhlith y pur (2,8)
2. Tro pedol yn dilyn ymosodiad wrth nesau at y nod (5)
3. Gweld tir yn llyn y stad (4)
4. Gwneud capel allan o ladd- dŷ diflas (6)
5. 'Tyrd yn glau, a ----- -----
Ei ddoluriau' (JTJ) (4,4)
6. Lladd Cain mewn ffordd bachgenaidd (7)
11 'Ac fe'u cesgli ----- -----
Fel y cywion dan yr iar' (DGJ) (3,1'6)
13. Mynd o gwmpas eto i greu o'r newydd (8)
14. Dywedaf 'Rwyn euog' (7)
16. Dacw y Brenin yn dal y ffurfafen (6)
17. Hela mewn gwlad arall (5)
20. Torri amod y wisg olaf (4)

**Enillydd Croesair Rhif 257**
**Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 257**
**Ar Draws:** 2. Call 5. Bryste 7. Er mwyn 9. Saith diwrnod 10. Triawd 11. Dirnad 13. Cardod 16. Ysgrif 18. O Garn Fadryn 19.Dwrdio 20. Deuawd 21. Nwy
**I Lawr**
1. Drysor 2. Ceudod 3. Lletwad 4.Tyndra 6. Stiwardiaid 8. Mandragorau 10. Toc 12. Dof 14. Arolwg 15. Dynion 16. Y pandy 17. Ionawr

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Mawrth, 2026
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10




*Roedd (Thomas Price 1787 – 1848) Carnhuanawc yn hanesydd ac yn un o brif ffigurau llenyddol Cymru yn y 19eg ganrif. Disgrifir o fel traethodydd, artist, areithydd, naturiaethwr, hynafieithydd, addysgwr, ieithydd a cherddor. Roedd Price yn eiriolwr brwd dros achos iaith a diwylliant cynhenid Cymru.*

Mae Cymdeithas wedi ei enwi ar ei ôl yma yng Nghaerdydd sy'n trefnu nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn e.e. teithiau undydd i lefydd o ddiddordeb hanesyddol ac ieithyddol gan gynnwys taith flynyddol breswyl am ychydig ddyddiau (yn aml iawn dramor).

Un digwyddiad pwysig arall ydy'r Ysgol Fore a gynhelir bob mis Mawrth. Eleni fe'i cynhelir ar 7 Mawrth yng Nghwrt Insole, Ffordd y Tyllgoed / Fairwater Road, Llandaf CF5 2LN.

Bydd cyfle i glywed tri siaradwr o'r radd flaenaf. Bydd Ieuan Wyn Jones yn siarad am 'Y daith o Gymru Fydd i Blaid Cymru', Keith Bush yn sôn am 'Enigma Edward Thomas John' ac Arwel Vittle yn trafod 'Cyfraniad Allweddol Mai Roberts at sefydlu Plaid Cymru'.

Mae digon o le i barcio (am ddim) a bydd cyfle i brynu paned yn y caffi yn ystod yr egwyl. Bydd cofrestru am 9.15am (fydd yn £10.00) gan ddechrau am 10.00am. Gorffennir am 1.00pm.

Croeso i bawb i fwynhau bore diddorol a hynny mewn lleoliad sy bellach yn atyniad poblogaidd yn Llandaf.

Os am fwy o wybodaeth am y gymdeithas cysylltwch ar cymcarnhuanawc@gmail.com

*Dafydd Griffiths*

# Merched y Wawr Y Felin

Roedd pawb yn edrych mlaen yn eiddgar i gyfarfod cyntaf y flwyddyn yng nghwmni Eurgain Haf enillydd y fedal ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd yn 2024 am ei llyfr *Y Morfarch Arian* a gafodd ganmoliaeth mawr. Stori yw hon am ferch sydd â chyflwr OCD a bachgen sydd yn dod yn ffrindiau mawr, yn canfod cysur yn ei gilydd a sy'n canfod eu ffordd drwy gymhlethdod cymdeithas.



Aeth Eurgain â ni ar ei siwrnai lenyddol trwy rannu y dylanwadau a'r profiadau a arweiniodd at ennill y fedal ryddiaith yn Mhontypridd.

Wedi ei magu ym Mhenisarwaun, ardal ddiwylliedig a phentref bach yng nghesail yr Wyddfa, rhannodd ei hatgofion o wrando ar ei mam yn rhannu chwedlau yr ardal gyda hi yn blentyn. Dyma ble dechreuodd y cariad at ysgrifennu nofelau ffantasi. Wedi ennill cystadleuaeth y Prif Lenor yn yr Eisteddfod bentref ac Eisteddfod yr Urdd yn Meirionnydd yn 1994 agorwyd nifer o ddrysau iddi a buan y dechreuodd ysgrifennu llyfrau i blant; *Fferm Ffion, cyfres Siencyn* a *Brenhines yr Wyddfa* sy'n nofel ffantasi. Ond un o'r llyfrau sy agosaf at ei chalon yw *Y Boced Wag.* Fel rhiant sydd wedi mabwysiadu plentyn mae'r stori yn un sydd hefyd yn helpu rhieni i agor y sgwrs yn ei mamiaith gyda phlentyn sydd wedi ei mabwysiadu a sydd wedi derbyn adborth bositif gan rieni.

Mae hefyd yn ysgrifennu llyfrau i oedolion ac roedd ysgrifennu O *mam bach,* llyfr sydd yn croniclo ei thaith IVF yn broses emosiynol ond cathartig. Mae'r llyfr *Nerth Bon Braich* nofel gywaith gyda 7 o awduron sy'n rhannu penodau hefyd wedi cael derbyniad da.

Rhan bwysig arall yn ei bywyd yn rhinwedd ei swydd fel Uwch Reolwr gyda elusen rhyngwladol Achub y Plant yw tynnu sylw at dlodi plant yma yng Nghymru ac hefyd yn rhyngwladol drwy weithio gyda theuluoedd yn Gaza, Sudan ac Afghanistan gan sicrhau ein bod yn clywed lleisiau y plant sydd yn byw o dan amgylchiadau heriol.

Diolch o galon Eurgain am noson arbennig yn dy gwmni, ac am rannu y straeon tu ôl i'r llyfrau.



## AGOR Y LLYFR

**cyfnod y Nadolig 2025**


Angel yn ymddangos, nid yn unig i ferch o'r enw Mair, ond hefyd i'w pherthynas Elisabeth!

Dyna oedd yr hanes a gyflwynwyd gan dîm Agor y Llyfr, Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd i rai o ysgolion cynradd y ddinas wrth i ni nesáu at y Nadolig. Pam ddaeth yr angel at y ddwy wraig arbennig yma? I roi gwybod eu bod i chwarae rhan yng nghynllun Newyddion Da Duw, ac y byddai'r ddwy ohonynt yn geni babanod fyddai'n chwarae rhan allweddol yn hanes y byd. Iesu fyddai enw plentyn Mair, Ioan (Ioan Fedyddiwr) fyddai enw babi Elisabeth. Daeth y disgyblion yn rhan o'r cyflwyniad wrth ymateb i eiriau Cân Mair:

Mae Duw yn fawr *(lledu eu dwylo a'u breichiau)*
Mae Duw yn fwy na mawr *(lledu eu dwylo a'u breichiau'n fwy)*
Ac mae pob rhan ohonof i am weiddi hynny'n uchel *(Hwre!)*

Diolch i'r ysgolion hynny sy'n ein croesawu i'w gwasanaethau. Os oes ysgolion eraill am fanteisio ar y cynllun, neu unigolion am ymuno â'r grŵp, cysylltwch ag Alun Tudur (atudur@gmail.com).





# Merched Plastaf

Cafwyd cyngerdd Nadolig hyfryd yn Eglwys St John's Treganna nos Fercher 17 Rhagfyr. Mae hwn yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i'r côr, bellach, ac yn gyfle i fwynhau, heb bwysau cystadlu. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi.

Eleni, mae'r côr yn edrych ymlaen at daith i Sbaen ym mis Mawrth i gystadlu mewn gŵyl gorawl yn ardal Barcelona. Bydd y merched yn cynrychioli Cymru mewn gweithdai a dosbarthiadau meistr yn ystod yr ŵyl, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyngerdd ym Montserrat, a chystadlu gyda chorau rhyngwladol fel rhan o'r *Golden Voices of Montserrat.* Mae'r paratoi'n ddwys ac yn ddifyr, a'r ymarferion yn gallu bod yn hwyliog ac yn heriol ar yr un pryd! Bydd yn brofiad a hanner, a chewch yr hanes i gyd (bron!), mewn rhifyn o'r Dinesydd yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, mae'r côr yn cynnal Cyngerdd Gŵyl Ddewi yn Eglwys St John's Treganna nos Wener 27 Chwefror, ac mae'r merched yn edrych ymlaen yn fawr at rannu llwyfan gyda'r soprano arbennig Jessica Robinson, (sydd mor hyfryd, a chefnogol o'r merched) a Chôr Meibion Tâf. Os hoffech ddod i'r cyngerdd, mae'r tocynnau'n £15.00 ac ar werth yn siop Caban, neu drwy We Got Tickets.

Os hoffech gysylltu â'r côr, y cyfeiriad e-bost yw: merchedplastaf@gmail.com



# Eisteddfodau'r Urdd Caerdydd a'r Fro 2026

Hoffem ddymuno pob dymuniad da i bob un a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfodau dros yr wythnosau nesaf. POB LWC!!

**Dyddiadau Eisteddfodau 2026**
**Rhanbarth Dwyrain Caerdydd**
10/02/2026 – Eisteddfod Offerynnol - Eglwys Gadeiriol, Llandaf
28/02/2026 – Cylch Cynradd Canol Caerdydd – Ysgol Glantaf
03/03/2026 – Dawns - Ysgol Fitzalan
07/03/2026 – Cylch Cynradd Dwyrain Caerdydd – Ysgol Bro Edern
12/03/2026 – Rhagbrofion Uwchradd – Ysgol Glantaf
13/03/2026 – Eisteddfod Uwchradd– Ysgol Glantaf
19/03/2026 – Eisteddfod Theatr – y Memo, y Barri
21/03/2026 – Rhanbarth Cynradd Dwyrain Caerdydd – Ysgol Bro Edern

**Rhanbarth Gorllewin Caerdydd a'r Fro**
04/02/2026 – Eisteddfod Offerynnol - Eglwys y Gadeirlan, Llandaf
28/02/2026 – Cylch Cynradd y Fro – Bro Morgannwg
04/03/2026 – Dawns - Ysgol Fitzalan
07/03/2026 – Cylch Cynradd Gorllewin Caerdydd - Plasmawr
10/03/2026 – Rhagbrofion Uwchradd - Ysgol Bro Morgannwg
11/03/2026 – Eisteddfod Uwchradd - Paget Rooms
19/03/2026 – Eisteddfod Theatr – y Memo, y Barri
21/03/2026 – Rhanbarth Cynradd Gorllewin Caerdydd a'r Fro – Y Memo

**Gwirfoddoli yn Eisteddfodau 2026**
Os oes diddordeb gyda chi yn ein helpu eleni – yn enwedig gyda nifer uchel o Eisteddfodau yn y rhanbarth – boed hynny drwy stiwardio, clercio neu helpu ar y diwrnod, byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr; cysylltwch â mi: elenevans@urdd.org neu dilynwch y QR yn y poster.

**Cysylltwch â ni:** Am ragor o wybodaeth neu i ymuno â'r Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro, ewch i urdd.cymru neu cysylltwch â:
Elen Evans, Swyddog Cymunedol Caerdydd a'r Fro: Elenevans@urdd.org
Cofiwch ein dilyn ni ar ein cyfryngau cymdeithasol :
Instagram - @Urdd_caerdyddarfro
Facebook – Urdd Caerdydd a'r Fro



# Atodiad Coffa

# Gwilym E. Roberts

## 1935 - 2025



### Teyrnged Alun Guy

Anodd credu rywsut fod fy annwyl gyfaill Gwilym Elwyn wedi ffarwelio â'r byd hwn. Daw hiraeth i'm calon wrth sylweddoli na ddelo'r cyfle fyth eto i ymarfer emynau'r Sul yn stafell ffrynt Heol Wen. Yma byddai Gwilym yn hoff o ymarfer yr emynau ar gyfer gwasanaethau fore Sul yng Nghapel Bethel Rhiwbeina.



Yn ystod ei salwch, byddwn yn galw heibio i'w weld. Roedd e'n awyddus i wybod bod pob dim yn iawn efo'r canu ac ati. Roedd yntau wedi dechrau paratoi'r carolau ar gyfer parti Carolau y Capel nôl ym mis Medi! Wyddai neb ohonom bryd hynny na fyddai Gwilym efo ni yn y gwasanaeth Nadolig eleni. Profiad rhyfedd braidd i mi heddiw yw myned heibio i'w gartef 'Erw Deg' heb alw mewn am sgwrs. Ef oedd aelod olaf ei deulu i fyw yn Rhiwbeina gydol ei fywyd, ar wahan i'w gyfnod yn y Coleg a'r Fyddin. Roedd gwasanaethu yn y Fyddin yn orfodol bryd hynny!

Cyfarfyddais â Gwilym am y tro cyntaf erioed tu allan i ddrws ffrynt Capel Minny St., a minnau ar y ffordd i chwarae'r organ yn y gwasanaeth boreol. Daeth bloedd o seddi cefn rhyw gar mawr du! Doedd gen i ddim clem mai cludo aelodau i hen gapel y Crwys oedd y car du hwn. Wyddwn i ddim chwaith pwy oedd y gŵr efo'r barf mawr du fu'n gweiddi arnai! Ces wybod yn gyflym mai Gwilym Roberts ei hun ydoedd!

Roedd fy mrawd iau Iwan, eisoes wedi ymaelodi fel un o aelodau cyntaf Aelwyd yr Urdd yng Nghaerdydd, ac yn adnabod Gwilym, y gŵr barfog yng nghefn y car y tu allan i'r Capel. Cefais alwad ffôn ymhen rhai misoedd oddi wrth Gwilym gan ofyn i mi a oedd diddordeb gen i mewn hyfforddi ac arwain Côr S.A.T.B. Aelwyd yr Urdd Caerdydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Derbyniais yn llawen, a dyna'r tro cyntaf i mi sefyll o flaen Côr yn fy mywyd.

Ers hynny, bu Gwilym a minnau yn gyfeillion pennaf ar hyd ein bywydau. Bu colled anferth ym mywydau cannoedd o Gymry Caerdydd a Phatagonia. Gwil yn ddiarwybod a newidiodd cwrs fy mywyd, ac rwy'n hynod o ddyledus iddo am hynny.

Diolch Gwilym am dy gyfeillgarwch ffyddlon ers blynyddoedd maith. Mae fy nyled bersonol i ti yn enfawr. Buost yn 'was da a ffyddlon' i gannoedd ohonom. Daw hiraeth i gymaint wrth i ti ymadael â'r byd hwn.

Cwsg yn dawel Gwilym Elwyn annwyl; tithau a fu'n gyfaill i gynifer ohonom. Nos da Gwil.

---

### Teyrnged Joan - cymdoges a dysgwraig

Llythyr i Gwilym

Roedd hi'n sioc i glywed eich bod chi wedi marw, Gwilym, sioc enfawr a thrist iawn. Ro'n ni wedi ymweld â chi ddau ddiwrnod yn gynharach. Ro'ch chi'n eistedd mewn cadair ar bwys y gwely, yn teimlo'n falch iawn ar ôl cael cawod. Ro'ch chi'n ymddangos yn well i ni ers i'n eich gweld chi'r tro diwethaf, a siaradoch chi am ddod adre gyda phob math o offer i'ch helpu chi.

Byddwn yn eich cofio chi'n cerdded heibio ein tŷ i bostio eich llythyrau 'â llaw' mewn blwch post gyferbyn, bron bob dydd. Mae'n rhaid taw chi oedd un o'r ychydig bobl oedd yn cadw celfyddyd ysgrifennu llythyrau yn fyw!

Weithiau ro'n ni cwrdd yn y pentre ar ddamwain. Ro'n ni'n mwynhau cerdded adre o'r pentre gyda'n gilydd - chi'n cerdded yn araf, yn araf iawn gyda bag o siopa ym mhob llaw – 'i gadw'n 'balans', byddech chi'n dweud. (Fasech chi byth yn derbyn cynnig help o gwbl.) Chwarae teg. Basen ni'n eistedd ar y fainc ym Mharc y Pentre er mwyn i chi i gael eich gwynt nôl.

Ar ôl sbel byr, basen ni'n cerdded nôl i Heol Wen ac wedyn basech chi'n eistedd ar y wal tu allan i'n tŷ ni a phob tro basech chi'n dweud wrtha fi, 'Wel ro'ch chi wedi cael gwers Gymraeg heddiw eto - am ddim! Diolch am eich cefnogaeth.

Roedd y cymodogion i gyd eisiau eich helpu, ond ro'ch chi mor annibynnol, ac wrth gwrs, ro'n ni wedi parchu eich dymuniadau.

Dwi'n cofio chi'n mwynhau partïon stryd. Ro'ch chi wrth eich bodd yn sgwrsio â chymdogion gwahanol, yn enwedig yn Gymraeg. Ro'ch chi'n amlwg yn nabod pawb. Wel ro'ch chi wedi byw yn y stryd ers wyth deg saith mlynedd!

Mae hi wedi bod yn dda i nabod chi Gwilym. Diolch o galon am ein croesawu ni, am eich hiwmor, am eich cyfeillgarwch ac am eich cymeriad unigrw oedd yn gwneud chi yn Gwilym. Bydd colled fawr ar eich ôl.


## Teyrnged Julie Jones

Ddim mwy o'r amlenni bach yn cyrraedd trwy'r post bob mis; ddim mwy o grafu pen na phendroni dros ei ysgrifen; ddim mwy o ymweliadau â 6 Heol Wen a dim mwy o *Golofn G.R*...

Des i nabod Gwilym yn y 1990au canol pan roedd e'n aelod o bwyllgor *Y Dinesydd* a finnau'n ysgrifennydd. Cofiaf ei fod o hyd yn awyddus i helpu ac yn frwd iawn dros barhad ein papur bro.

Dechreuodd ei golofn ym mis Hydref 2011. Dwi'n meddwl bod ei ysgrifen aneglur wedi achosi cur pen i nifer o olygyddion y mis! Gydag amser roedd mwy a mwy o gyfranwyr yn teipio eu herthyglau eu hunain ac yn eu hebostio at y golygydd ac felly roedd pwysau ar Gwilym i gael rhywun i deipio ei golofn. Doedd dim diddordeb o gwbwl gyda fe mewn technoleg heb sôn am ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiadur. Bydde fe'n dweud bod e'n rhy hen i ddysgu a bod e fel "*deinosor*" yn byw yn yr oes o'r blaen! Felly ym mis Chwefror 2013 dechreuais i deipio *Colofn G.R*.. Roedd e'n itha deddfol â'i drefn. Bydde fe'n postio ei golofn ataf er fy mod yn ei weld yn y capel. Bydde fy nghopi teipiedig i yn llawn marciau cwestiwn! Roedd e'n cyfaddef fod ei ysgrifen yn anodd i'w deall a bod hynny oherwydd ei fod yn llaw chwith. Fel arfer bydden i'n galw heibio ei dŷ i gael y cywiriadau ac roedd e wastad yn gofyn dau gwestiwn i mi – o'n i'n meddwl bod ei golofn yn ddiddorol ac a oedd yn ddigon hir? Bydden ni'n dau wedyn yn eistedd wrth ei ddesg yn yr ystafell gefn lle bydde fe'n darllen ei golofn yn uchel a gwneud ei newidiadau mewn inc coch. Bydde fe wrth ei fodd yn ei darllen ac yn mynd mewn i hwyl a chwerthin ar ambell sylw doniol yn ei erthygl. Yn aml bydde fe'n cael ei atgoffa am ryw stori arall a bydde fe'n adrodd honno felly bydden i yno am amser hir.

Roedd pentwr o doriadau papur newydd ganddo ar gyfer ei golofn – digon mae'n debyg ar gyfer y rhifyn nesa! Roedd yn ddarllenwr o fri – papurau newydd, cylchgronau a llyfrau. Bydde fe'n eistedd ar y soffa o flaen ffenest flaen y tŷ yn darllen. Sawl gwaith bydden i'n gorfod cnocio'r ffenest er mwyn cael ei sylw oherwydd roedd ei drwyn mewn ryw bapur newydd neu'i gilydd a doedd e ddim yn clywed cloch y drws.




Dair blynedd nôl dywedodd ei fod yn ysgrifennu ei hunangofiant a gofynnodd imi os o'n i'n fodlon ei deipio. Llyfryn oedd ganddo mewn golwg ar y pryd, yn debyg i'w lyfryn *Atgofion Plentyndod am Riwbeina* a gyhoeddwyd yn Gorffennaf 2007. Dwi'n meddwl imi oedi tra'n ystyried y dasg enfawr o'm mlaen – yr ysgrifen annealladwy a gwybod bod e wedi cyflawni cymaint yn ei fywyd - ond sut allen i wrthod?

Felly dyna a fu, mwy neu lai yr un drefn â'i golofn. Bydden i'n teipio un darn, fe'n cywiro a rhoi y darn nesa ayyb. Wrth gwrs roedd y 'llyfryn' yn mynd yn hirach ac yn hirach! Gofynnais iddo un tro sut oedd e'n cofio'r holl ddigwyddiadau a dyddiadau a darganfod ei fod yn cadw dyddiadur ers blynyddoedd. Aethon ni trwy sawl drafft a llwythi o bapur!

Ar ôl gorffen, anfonais gopi o'i lyfr at Wasg Carreg Gwalch. Daeth ateb cadarnhaol yn ôl i gyhoeddi ei lyfr ac yn y cyfnod nesaf buodd cyfathrebu rhyngddo fe â'r Wasg. Dwi'm yn meddwl bod llawer o gyfaddawdu ar ei ochor ef ynglŷn ag unrhyw newidiadau a awgrymwyd! Er enghraifft dewisodd lun ohono ei hun ar gyfer y clawr ond doedd yr ansawdd ddim yn wych a thriodd y golygydd a minnau i'w gael i newid y llun. Doedd e ddim yn hapus ond llwyddodd y wasg i wella'r ansawdd ac felly fe enillodd y dydd!

Cyhoeddwyd ei lyfr "*Dros ysgwydd y blynyddoedd*" erbyn Eisteddfod Pontypridd yn 2024. Roedd wrth ei fodd pan aeth i Siop y Felin rai wythnosau wedyn a darganfod bod pob copi wedi ei werthu.

Hyd yn oed pan ddechreuodd deimlo'n anhwylus ym mis Hydref, daeth amlen fach trwy'r post a nodyn fel pob tro arall yn diolch imi rhag blaen am deipio ei golofn. Galwais gyda fe y dydd Sadwrn cyn iddo fynd i'r ysbyty ac roedd e'n wan iawn a phrin yn gallu sefyll. Mynnodd bo fi'n galw nôl i gael y newidiadau y prynhawn hynny. Ond y tro hwn ofynnodd e ddim y ddau gwestiwn pwysig a dyna'r tro olaf imi ei weld.

Dwi'n ystyried fy hunan yn lwcus iawn bod Gwilym yn byw fel "*deinosor*" a bydd bwlch enfawr ar ei ôl. Coffa da amdano.

---

## Teyrnged Juan Davies

Daeth Gwilym Roberts i Batagonia yn y flwyddyn 1991 a dyna pryd wnes i gyfarfod ag o am y tro cyntaf. Roedd Gwilym newydd ymddeol yn weddol ifanc ar ôl dysgu Cymraeg am 32 o flynyddoedd draw mewn gwahanol ysgolion. Am ei fod o mor egnïol yn ei ffordd, siaradus, llawn bywyd a brwdfrydedd doedd hi ddim yn hir nes mod i a rhai eraill ifanc ar y pryd yn ymuno â'i ddosbarthiadau. Roedd Gwilym yn athro gwirfoddol ym Mhatagonia, ac wedi cynllunio patrwm gwaith o ddydd Llun i dydd Gwener sef: Trelew dydd Llun, Tre Rawson dydd Mawrth, Dolafon dydd Mercher, Porth Madryn dydd Iau ac yna treulio dydd Gwener yn y Gaiman lle 'roedd o yn byw gan fynd i bobman ar fws lleol. Ar ben hynny, roedd o wastad yn trefnu twmpath dawns yn ystod y penwythnos neu yn mynd i´r Andes am dro ac yn aros hefo ei ffrind Rini Griffiths yn ei gwesty ar gyrion tref Esquel. Ar ôl iddo orffen ei flwyddyn gyntaf fel athro yma aeth o nôl i Gymru ond fuodd o ddim yn hir iawn draw. Ymhen dwy flynedd roedd o yma eto yn barod i dreulio blwyddyn arall o waith ac yna un arall nes bod Cynllun yr Iaith Gymraeg yn dechrau yn y flwyddyn 1997 diolch i Luned Roberts de González (prifathrawes Coleg Camwy ar y pryd) a phobl eraill. Mae´r Cynllun yn danfon athrawon o

Gymru i Ddyffryn Camwy a´r Andes ac yn parhau hyd heddiw. Unwaith roedd Cynllun yr Iaith yn sefyll ei hunan roedd o yn hoffi dod ar ei wyliau yma, felly buon ni yn lwcus iawn i gael cwmni Gwilym am flynyddoedd. Yn aml iawn roedd yn cael gwahoddiad am baned o dé neu ginio hefo ei ffrindiau yn yr ardal neu yn galw yn y lle petrol lleol i ymweld â Ricardo Rogers, ffrind arall iddo fo. Ond doedd o ddim yn gallu aros yn dawel felly yn ystod ei wyliau yma roedd o yn teithio ar y bws lawr i Comodoro Rivadavia, dinas fwyaf talaith Chubut ac yn daith pedair awr ar y bws. Yn un o'r cyrsiau haf yno wnaeth o gyfarfod â Walter Ariel Brooks a dwi´n cofio Gwilym yn dod nôl a dweud fod hogyn ifanc deallus yn byw yno a dylsa fo ddysgu Cymraeg!! Roedd o yn llygad ei le, wrth gwrs ac mae Walter yn byw yng Nghymru nawr ers rhai blynyddoedd gyda doethuriaeth yn yr iaith. Roedd o yn hoff iawn o ganu hefyd ac wedi ymuno â Chôr cymysg y Gaiman dan arweiniad Marli Pugh de Villoria. Buodd o yn athro arbennig iawn i lawer o bobl, beirniadu mewn steddfodau,



aelod o Orsedd Patagonia, ac yn barod i helpu bob amser. Roedd o wastad yn croesawu pobl o Batagonia yn ei dŷ yn Rhiwbeina ac yn hoffi galw y lle fel " Y gwesty 5 seren!!" Ces i lythyr ganddo bob mis a hynny am bron i 35 o flynyddoedd mewn ysgrifen anodd i´w deall (!!) ond llythyron difyr a llawn gwybodaeth. Roedd o yn hoff o dorri darnau o'r *Dinesydd* neu'r *Western Mail* a'u danfon nhw allan ata i. Clywais wedyn ei fod o yn gwneud yr un peth hefo llawer o bobl eraill, yn arbennig hefo'r athrawon o Gymru oedd yn sefyll yn Mhatagonia am flwyddyn!! Ac os nad oeddwn i yn ateb ei lythyron yn syth dyma fo'n cwyno yn y llythyr nesaf, ac yn gofyn os oedd 'Paralysis' neu broblem yn fy llaw dde... sut allai anghofio ei ymadroddion?? "Does dim siâp arnat ti!" neu " alla i neidio dros dy ben di unrhyw funud", "wyt ti yn bwyta fel un o locustiaid yr Aifft' ac ymlaen....Oedd, roedd o yn athro penigamp a ffrind ffyddlon i mi ac i lawer o bobol eraill. Diolch iddo dwi'n siarad Cymraeg, Diolch am bopeth annwyl gyfaill...Cwsg yn dawel....

---

## Teyrnged Iolo Walters

Dyn ei filltir sgwâr oedd Gwilym. Estynnai'r filltir honno o Heol Wen, Rhiwbeina i Batagonia ac fe'i cydnabyddwyd gan lu o sefydliadau o fewn y filltir honno gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol (Gwobr Goffa Syr T.H. Parry-Williams, tlysau Elvet a Mair Thomas ac Aled Roberts), y Brifysgol Agored a Gorsedd Patagonia. Chwith meddwl na fydd Colofn GR yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd.*

Faint ohonom a anwyd yng Nghaerdydd sy'n ddyledus i Gwilym? Dangosodd Gwilym i mi fod modd bod yn Gymro Cymraeg er i mi gael fy ngeni yng Nghaerdydd. Agorodd yntau'r drws trwy sefydlu Aelwyd yr Urdd, cylchoedd meithrin a'i gefnogaeth ddihafal i unrhyw ddatblygiad a hyrwyddai'r Gymraeg. Wedi sefydlu Aelwyd yr Urdd, esgorodd hynny ar gôr, tîm rygbi, dawnsio gwerin a chymdeithas yn y Gymraeg i'r Cymry a'r di-Gymraeg. Yn y cyfnod cynnar hwnnw, Gwilym a arweiniai'r côr ac Alun (Guy) yn cyfeilio. Doedd hi ddim yn hir cyn i Alun arwain a daeth David Hamley i gyfeilio. Ymunodd Gwilym â'r baswyr a braf oedd cael canu wrth ei ymyl: organ o lais. Dyma gyfnod llwyddiant Côr yr Aelwyd yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd a'r genedlaethol, y teithiau i San Remo, yr Almaen a Neuadd Albert.

Sefydlwyd cyrsiau ail-iath cynradd ac uwchradd yng ngwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glan-llyn. Yr Urdd a roddodd y fframwaith ond Gwilym roddai'r bywyd yn y fframwaith. Roedd mynd â disgyblion i'r cyrsiau hyn yn agoriad llygad iddynt hwy ac i ninnau'r athrawon. Doedd lledu'r Gymraeg o fewn oedran ysgol ddim yn ddigon i Gwilym. Gyda Chris Rees, sefydlwyd Wlpan i ddysgu'r Gymraeg i oedolion yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy: Gwilym eto fyth oedd yn trefnu.

Rwyn amau a roddodd unrhyw beth gymaint o foddhad i Gwilym â sefydlu Adran yr Urdd yn Rhiwbeina. Gemau, chwaraeon, teithiau cerdded i'r Wenallt, picnic a'r cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyn y randibŵ arferol, roedd rhaid i blant yr adran eistedd a chael chwistrelliad o hanes Cymru yn wythnosol gan Gwilym. Cawsant hanes Hedd Wyn, Llywelyn Fawr ac Owain Glyndŵr ac eraill.

Roedd cysylltiadau Gwilym yn ddi-ben-draw ac yn ddiharebol. Roedd yn gyfaill i gynifer ohonom ac yn un caredig, yn barod ei gymwynas ac yn un a oedd yn barod iawn i adrodd ei hanes. Sawl cymdeithas a glywodd am ei hanesion ym Mhatagonia ac wedi awr o'r hanes, roedd Gwilym wedi cyrraedd Heathrow? Gymaint oedd nifer yr ymwelwyr a ddeuai i'w weld yn yr ysbyty nes i'r staff ofyn iddo, 'Are you a politician?'

Stori ddiharebol am Gwilym yw honno pan oedd yn swyddog yn Llangrannog ac yntau allan yn y môr yn gwarchod y gwersyllwyr. Daeth bloedd gan nofiwr, nad oedd yn wersyllwr, yn dweud ei fod mewn trafferth. Gwilym, a oedd yn nofiwr da, yn nofio ato a'i gwestiwn cyntaf, 'Ydych chi'n siarad Cymraeg?' Gwadai Gwilym fod y stori hon yn wir.

Mae'n arwyddocaol mai yng Nghapel Beulah y cynhaliwyd gwasanaeth i ddiolch am fywyd Gwilym. Dyma ganol pentref Rhiwbeina. Da oedd cael cyfle yn ddiweddar i ddathlu ei ben-blwydd yn 90 a nodi sefydlu Cylch Meithrin Rhiwbeina yng Nghapel Bethel 60 mlynedd yn ôl. Roedd sefydlu'r cylch hwn yn Rhiwbeina yn gam mawr tuag at sefydlu'r Mudiad Meithrin yn genedlaethol.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu oll. Coffa da amdano.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**Gwilym Roberts, Cwrs y Pasg yng Nglan-llyn yn 1967 – a fi!**

Ym marwolaeth Gwilym Roberts, Rhiwbina, ar 4 Tachwedd 2025, collwyd un o bileri mawr y Gymraeg a'i diwylliant yng Nghaerdydd – ac nid yng Nghaerdydd yn unig o bell ffordd. Er enghraifft, bu'n fawr ei gyfraniad dros ddegawdau lawer i'r Mudiad Meithrin, i fudiad Urdd Gobaith Cymru ac i'r mudiad dysgu Cymraeg i oedolion, a hynny yn genedlaethol yn ogystal ag yn lleol yng Nghaerdydd. A dyna wedyn ei lafur cariad o'r 1990au ymlaen yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y Wladfa ym Mhatagonia.

Mae'r rhifyn hwn o'r *Dinesydd* yn cynnwys nifer o deyrngedau i Gwilym Roberts ac atgofion amdano. A dyma benderfynu, am resymau a ddaw yn amlwg, y byddai'n briodol i minnau neilltuo'r golofn 'Llys a Llan' y tro hwn i sôn am Gwilym a'i gyfraniad. Rhaid nodi hefyd ar y dechrau y bydd elfen hunangofiannol gref i'r hyn fydd gennyf i'w ddweud – nid lleiaf am ei bod yn eithaf posibl na fyddwn yn cyfrannu erthyglau i'r *Dinesydd*, nac yn wir yn ysgrifennu yn y Gymraeg o gwbl, heblaw am Gwilym Roberts. Ond gwell i mi egluro!

Fe'm magwyd ym mhentref Troed-y-rhiw ym mwrdeistref Merthyr Tudful. Erbyn fy mhlentyndod yn yr 1950au, roedd y Gymraeg wedi cilio i raddau helaeth o fod yn iaith y gymuned, ond roedd rhai yn ei harfer o hyd, gan gynnwys fy nhad. Ond magwyd fy mam yn uniaith Saesneg, ac er iddi ddysgu peth Cymraeg, ni ddaeth erioed yn rhugl.

Cefais fagwraeth ddwyieithog nes imi ddechrau yn ysgol y babanod. Roedd honno, fel holl ysgolion bwrdeistref Merthyr hyd yr 1970au, yn Saesneg ei chyfrwng. Yn ôl ffasiwn y dydd – ac yn groes i farn arbenigwyr ym myd addysg erbyn hyn – daeth pwysau mawr ar fy rhieni i beidio â pharhau i'm magu'n ddwyieithog rhag llesteirio fy natblygiad addysgol. A'r canlyniad fu i hynny o Gymraeg plentyn a oedd gennyf yn bedair blwydd oed, gilio'n fuan i gilfachau pell y cof.

Roedd y Gymraeg yn parhau yn bresenoldeb yn fy mywyd. Roedd ein teulu'n mynychu capel a oedd yn Gymraeg mewn enw, ond prin oedd y rhai a ymgomiai yn yr iaith honno wedi'r oedfa. Roedd y defnydd o'r Saesneg ar gynnydd cyson yng ngweithgareddau'r capel yn gyffredinol ac erbyn fy arddegau, Saesneg oedd unig iaith y gwasanaethau i bob pwrpas – ac eithrio'r emynau.

Oherwydd cysylltiadau teuluaidd ar ochr tad fy nhad, byddwn yn ymweld yn eithaf aml ag ardal Tregaron yng Ngheredigion. O'r herwydd, roeddwn yn ymwybodol fod y Gymraeg yn iaith arferol y gymuned mewn mannau yng Nghymru. Ond fel yn ein capel yn Nhroed-y-rhiw, llifo dros fy mhen a wnaeth y Gymraeg a glywn yn Nhregaron a'r cyffiniau, a minnau heb ddeall llawer mwy nag ychydig eiriau ac ymadroddion yma ac acw.

Prin iawn oedd y Gymraeg a gyflwynwyd inni yn yr ysgol gynradd. Yn yr ysgol uwchradd, roedd gwersi 'ail -iaith' yn y Gymraeg yn orfodol am ddwy flynedd, ond yna rhaid oedd dewis rhwng y Gymraeg a nifer o bynciau eraill; a deuai pwysau o du'r cynghorwyr gyrfaoedd yn yr ysgol imi beidio â dewis y Gymraeg. A dyna pam nad oes gennyf gymhwyster Lefel O (sef TGAU erbyn heddiw) yn y Gymraeg.


Felly, er i'r Gymraeg fod yn rhan o ddodrefn fy mywyd erioed, rywle ar y cyrion yr oedd, a dweud y lleiaf, o'r cyfnod wedi imi ddechrau yn yr ysgol nes imi gyrraedd 16 mlwydd oed. Ond newidiodd pethau'n llwyr yr adeg honno, yn sgil mynychu cwrs dysgu Cymraeg a drefnwyd gan yr Urdd yng ngwersyll Glan-llyn, ar lan Llyn Tegid, adeg y Pasg 1967. Roedd yn gwrs ar gyfer disgyblion 15 – 18 oed a oedd yn astudio'r Gymraeg yn ail iaith. Ond sut y cefais fy hun yno, a minnau heb fod yn astudio'r Gymraeg yn yr ysgol?

Roedd gennyf ffrind ysgol a oedd yn astudio'r Gymraeg. Ef oedd yr unig fachgen o'r ysgol a fwriadai fynychu'r cwrs yng Nglan-llyn, a phwysodd arnaf i ddod yn gwmni iddo. Roedd y cwrs yn fenter newydd gan yr Urdd yr adeg honno, a heb fod yn llawn. Roedd gennyf ychydig o Gymraeg babanaidd yn rhywle yn y cefndir. A rhwng popeth, caniatawyd imi fynd.

Cwrs wythnos ydoedd, yn rhedeg o nos Sadwrn, 1 Ebrill, hyd fore Gwener, 7 Ebrill. Patrwm y diwrnodau oedd ymrannu'n grwpiau i gael gwersi Cymraeg yn y boreau, yna gweithgareddau amrywiol yn y prynhawn, gyda gwers arall cyn swper ac wedyn adloniant yn yr hwyr: noson lawen ambell gyda'r nos a thwmpath dawns dro arall.

Fel y nodais, roedd y cwrs yn arbrawf newydd gan yr Urdd. Cyn hynny, y patrwm arferol yng nghanolfannau Llangrannog a Glan-llyn oedd cynnal rhai gwersylloedd ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, gydag eraill yn 'ddwyieithog' er mwyn rhoi cyfle i rai di-Gymraeg gael gwyliau â naws Cymreig iddynt. Yn y gwersylloedd 'dwyieithog' hynny, byddai'r plant yn cael eu cyflwyno i rai geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol, i ambell gân Gymraeg ac yn y blaen, ond nid oeddynt yn gyrsiau dysgu Cymraeg fel y cyfryw.

Daeth pwysau ar yr Urdd, yn arbennig o du athrawon yn ysgolion cyfrwng Saesneg y de-ddwyrain, a Gwilym Roberts yn flaenllaw yn eu plith, i droi rhai o'r wythnosau 'dwyieithog' hynny yn gyrsiau Cymraeg. Ac yn sgil llwyddiant digamsyniol cwrs y Pasg yn 1967, datblygodd yr Urdd raglen o gyrsiau iaith i ddisgyblion 9–18 oed yn Llangrannog a Glan-llyn.




Prif arweinydd cwrs y Pasg yn 1967 oedd Alun Jones, a oedd ar y pryd yn athro yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn ym Mhontypridd ac a ddaeth wedi hynny yn athro yn Ysgol Penweddig yn Aberystwyth, yn Brif Arholwr Lefel A ar gyfer y Gymraeg, ac yn olygydd dylanwadol gyda'r Lolfa. Ond cydweithiai Alun yn agos iawn â Gwilym Roberts, a oedd – fel na fydd yn syndod i neb a oedd yn ei adnabod – yn 'bresenoldeb' amlwg iawn yn y gwersyll. Derbyniais wersi gan Gwilym yn ystod yr wythnos, gan syrthio dan gyfaredd ei egni a'i frwdfrydedd a'i gariad angerddol at y Gymraeg.

Roedd y cyfan yn chwyldro! Roedd treulio wythnos yn sŵn y Gymraeg o fore gwyn tan nos yn chwyldro ynddo ei hun. Dechreuodd fy Nghymraeg ddatblygu'n arwyddocaol yn ystod yr wythnos yn sgil y gyfres ddwys o wersi. Cefais fy nghyflwyno i agweddau ar y diwylliant Cymraeg a oedd yn ddieithr i mi cyn hynny. Ond yn bwysicaf oll, deuthum dan ddylanwad tîm o swyddogion, a Gwilym Roberts yn flaenllaw yn eu plith, a oedd ar dân dros Gymru a'r Gymraeg. Ac wrth brofi, yn awyrgylch y gwersyll, o wres y deffroad cenedlaethol a oedd yn cyniwair yn y tir yn ail hanner yr 1960au, fe'm taniwyd innau.

Un arall o'r tiwtoriaid ar y cwrs oedd Edward Morus Jones – tad Awen Iorwerth, sy'n Ddarllenydd Clinigol yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, a Rhun ap Iorwerth, arweinydd Plaid Cymru. Adeg cwrs y Pasg yn 1967, roedd Edward yn athro Cymraeg ail-iaith yng Nghwm Cynon, a bu'n athro wedyn yn Ysgol Gymraeg Bryntaf yng Nghaerdydd rhwng 1969 ac 1972. Ef yw'r 'Edward' yn y ddeuawd 'Dafydd Iwan ac Edward', ac un noson daeth Dafydd Iwan ei hun draw i'r gwersyll i'n gwefreiddio â'i ganu.

Trysoraf o hyd y copi o'r casgliad newydd sbon, *Caneuon Dafydd Iwan*, a brynais yr wythnos honno. Torrodd nifer o'r 'swogs' eu henwau ar ei glawr, gan gynnwys Edward ac Alun Jones a Gwilym Roberts. Ac wrth imi ddychwelyd adref ar ddiwedd y cwrs, a geiriau fel 'Mae'n wlad i mi …' gan Edward a Dafydd Iwan yn atseinio yn fy mhen, cofiaf hyd heddiw y teimlad ym mêr fy esgyrn fy mod nid yn unig yn tramwyo o gyffiniau'r Bala yn ôl i'r Cymoedd, ond fy mod hefyd wedi cychwyn ar daith arall adref, yn ôl at fy ngwreiddiau Cymraeg.

Fel y gwelwch, felly, chwaraeodd Gwilym Roberts ran allweddol mewn trobwynt gyda'r mwyaf yn fy hanes. Nid cwrs y Pasg yn 1967 oedd diwedd fy nghysylltiad â'r Urdd nac â Gwilym Roberts, o bell ffordd. Mae Anne Uruska, yn ei theyrnged i Gwilym yn rhifyn Rhagfyr 2025/Ionawr 2026 o'r cylchgrawn *Barn* yn sôn am ei frwdfrydedd heintus dros y Gymraeg ac am 'ei galon fawr, ei garedigrwydd a'i gymwynasgarwch difesur'. Gallaf innau amenio pob gair ar sail fy mhrofiad, nid yn unig adeg y Pasg yn 1967, ond droeon lawer wedi hynny hefyd. Efallai y daw cyfle rywbryd eto i nodi enghreifftiau eraill o frwdfrydedd Gwilym a'i gymwynasgarwch. Ond am y tro, rhaid bodloni ar sôn am fy nghyfarfyddiad cyntaf un â Gwilym Roberts a'r effaith bellgyrhaeddol a gafodd hynny arnaf.

## Noson i Gofio GWILYM ROBERTS

Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De-Ddwyrain yn trefnu noson i gofio am Gwilym Roberts yng Nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Nos Iau, 12 Mawrth. Bu cysylltiad agos rhwng Ceris Gruffydd, Penrhyncoch, ger Aberystwyth, fu'n ysgrifennydd Cymdeithas Cymru Ariannin o 1998-2022, gyda Gwilym dros nifer o flynyddoedd. Bu'r ddau ohonyn nhw'n ymwelwyr cyson â'r Wladfa. Bydd Ceris yn sôn am gyfraniad Gwilym yng Nghymru ac yn Y Wladfa.

Pan yn athro yn Y Wladfa teithiodd Gwilym 225 milltir i Gommodoro Rivadavia, taith o dros 4 awr ar y bws. Yno bu'n allweddol yn natblygiad ieithyddol Walter Brooks. Cawn glywed yr hanes trwy gyfrwng lluniau gan Walter sy' bellach yn rheoli rhaglenni AB, VAG, Addysg Oedolion ac Addysg Uwch gyda chwmni Taith.Cymru. Edrychwn ymlaen hefyd at weld clipiau fideo gan unigolion o'r Wladfa oedd yn ffrindiau agos i Gwilym.

Bu Gwilym yn rhan annatod o'r *Dinesydd* a bydd Bryan James, un arall sy wedi rhoi cyfraniad enfawr i bapur bro hyna Cymru yn hel atgofion am Gwilym.

Bydd y noson yn cloi gydag Alun Guy, un arall o gyfeillion agos Gwilym, yn cyfeilio i bawb ganu emyn ar un o hoff donau Gwilym, sef Blaenwern.

Dewch draw erbyn 7.00pm am baned a chacen cyn y cyfarfod fydd yn dechrau am 7.30pm.

Croeso cynnes i noson sy'n agored i bawb.

## Teyrnged Luned Gonzales

Dw i'n cofio cyfarfod Gwilym am y tro cyntaf pan aethon ni gydag Alwina Roberts i Gymru ar gyfer priodas Pat a Gerallt Nash yn Nhŷ Ddewi yn 1979. Ar ôl y briodas, aethon ni tua'r gogledd ac wrth gyrraedd y Bala, aethon ni ar ymweliad â Gwersyll yr Urdd yng Nglan Llyn. Yno roedd Gwilym yn cynnal un o'i ddosbarthiadau difyr i blant. Mae'r gân "Roedd Ffrans o Wlad Awstria" wedi aros yn y cof.

Pan ddaeth Gwilym i'r Wladfa ym 1991 fe arhosai yn Nhŷ Camwy heb boeni o gwbl am y diffyg cysuron cartre arferol. Doedd dim peiriant golchi dillad yno, ac roedd yn rhaid iddo olchi pob dilledyn â llaw.

Heb oedi dim, dechreodd gynnal dosbarthiadau Cymraeg yn y Gaiman. Doedd o ddim eisiau colli dim amser. Roedd yn mynychu pob gweithgaredd; roedd yn canu yn y côr, roedd yn mynd i gyfarfodydd cymdeithasol a'r gwasnaethau Cymraeg yn y Capel.

Roedd gwneud ymarferion corfforol bob dydd yn bwyisg i Gwilym; gyda ioga yn y bore ar ôl codi ac wedyn byddai'n mynd i loncian, gan geisio osgoi'r cŵn a fyddai'n ei ddilyn, ac ar hyd y ffordd byddai'n aros i sgwrsio efo hwn ar llall yn Gymraeg.

O fewn dim, dechreuodd roi dosbarthiadau Cymraeg mewn ardaloedd gwahanol, i Ddolavon, Rawson a Madryn. Dw i'n cofio y byddai, wrth ddychwelyd o Rawson neu Madryn yn aros yn Nhrelew ac yn mynd am baned o de i gartre Eileen a Dewi Mefyn, lle byddai'n rhannu'r newyddion diweddara ac yn gwneud i'r ddau chwerthin dros y lle.

Roedd gan Gwilym ffordd gelfydd yn ei ddosbarthiadau o ddefnyddio hanesion Wilbar Jones, un o gymeriadau dychmygol Gwilym. Byddai'r myfyrwyr yn mwynhau darllen y straeon yma, oedd wedi'u darlunio gyda lluniau arbennig. Wedyn, byddai'r myfyrwyr yn adrodd yr hanes yn y person cynta, fel pe bai'n rhywbeth a ddigwyddodd iddyn nhw'n bersonol y diwrnod cynt. Wedyn, byddai'n cael y myfyrwyr i adrodd yr hanes fel pe bai'n rhywbeth a fyddai'n digwydd yn y dyfodol.

Rhywbeth a fyddai'n nodweddiadol o Gwilym oedd ei fod bob tro mewn hwyliau da, a gydag egni diderfyn.

Cofiaf un digwyddiad digri gyda'r gath feichiog oedd hefyd yn byw yn Nhŷ Camwy. Pan oedd yn amser yr enedigaeth, a digwyddodd hyn yn y gegin, fe gollodd Gwilym druan ei wroldeb gan fethu gwneud dim, ond rhedeg i Goleg Camwy drws nesa i ofyn am gymorth. Atebwyd yr alwad gan Carlos Blasetti. Fel ffarmwr da, ddaeth Carlos i Dŷ Camwy a rhoi'r cathod bach i gyd mewn bocs, a mynd â nhw er mwyn dod o hyd i gartrefi newydd iddyn nhw. Fel hyn, rhyddhawyd Gwilym o'i ddylestwysdddau tadol yn Nhŷ Camwy.

Roedd Gwilym yn ymwelydd cyson â Chubut, yn barod i gydweithio gyda phawb a phopeth. Pan ddaeth ei gyfnod teithio i ben, byddai'n cadw cysylltiad cyson drwy ysgrifennu llythyron hirion yn llawn newyddion; byddai byth yn anghofio unrhyw ddathliad a byddai wastad yn anfon cardiau pen-blwydd prydferth.

Roedd bob tro yn hapus dros ben pan fyddai rhywun yn ei alw ar y ffôn. Bydd yn rhyfedd dros ben peidio â rhoi galwad ffôn iddo fo o hyn allan. Er ein bod ni gyd yn llawn tristwch o glywed y newyddion trist am Gwilym, bydd yn ein meddyliau yn barhaol a ninnau'n ei gofio gyda'i wên a'i frwdfrydedd heintus.

---

## Teyrnged Rhian Till - cyn-ddisgybl

Fel llawer, fi oedd un o'i gyn-ddisgyblion yn Aelwyd yr Urdd. Bu'n rhan o'm bywyd ers i mi fod yn 12 oed... dwi'n 60 nawr. Daeth yn ffrind. Diolch iddo, am fy sbarduno a 'nghefnogi ar ymarfer dysgu nôl yn yr wythdegau. Ces gyfle i addysgu plant fel athrawes fro, yn dilyn ei esiampl. Roedden ni'n anfon cardiau i'n gilydd yn aml, y tro olaf rai wythnosau nôl.

Mae Gwilym yn ddyn a ysbrydolodd genedl. Roedd e'n un o'r oes aur yn fy marn i, wedi brwydro dros gadw'r iaith i'r werin: plant o bob ardal ac oedolion o bob cwr o'r byd. Roedd ei gwrs WIpan yn anhygoel, yn plethu diwylliant ac iaith gyda'i gilydd. Rhannai bwysigrwydd cael hwyl ar lawr y dosbarth - canu a chwarae gemau - fframwaith syml ond effeithiol. Roedd cyrsiau iaith Llangrannog yn waith caled ond eto roedd cynllun gyda Gwilym. Fel swog roeddwn wrth fy modd ac yn chwerthin yn aml.

---

## Englynion Coffa

**Er cof am Gwilym Roberts**

I Gwilym, cân y galon oedd yr iaith
haeddai'r holl waith cyson
a rhannodd, dysgodd y dôn
i eraill â'i wên dirion.

*Annes Glynn*

**Gwilym**

Heb ei wên, trist yw Rhiwbeina – un glew
oedd, boed glaw neu hindda;
gwaith dros ein hiaith oedd ei ha'
a'r enfys y feithrinfa.

*John Lloyd*



## Teyrnged J. Bryan Jones,
### Cyn-Gyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin

Fy nghyfarfyddiad cyntaf i efo Gwilym oedd yn Aberystwyth ym 1956. Roeddwn newydd gyrraedd yno gyda thri neu bedwar o'm cyd-ddisgyblion o'r Rhos ac Ysgol Ramadeg Rhiwabon i ddilyn cwrs gradd ac wedi dadbacio a setlo, penderfynu mynd am dro a thoc cyrraedd cerddwyr eraill. Wrth grwydro dyma lais yn torri ar ein traws "Helo, o ble 'dych chi'n dwad?" Gwilym oedd hwnnw ac wrth ei fodd yn cyfarfod Cymry Cymraeg eraill. Roedd Gwilym newydd gwblhau cwrs athro yng Nghaerfyrddin ac am dreulio blwyddyn ychwanegol yn Aberystwyth. Dyna ddechrau cysylltiad o bron i saith deg mlynedd.

Yn y cyfamser wedi i mi briodi a symud i Riwbeina ym 1967 daethom i gysylltiad eto. Erbyn hynny roedd Janice fy ngwraig a finnau wedi geni dau o blant ac er bod Janice yn gweithio ym myd teledu i TWW, bu hefyd yn gynorthwywraig yn Ysgol Feithrin Rhiwbeina. Gwilym, wrth gwrs, oedd yr ysbrydoliaeth ac roedd yn ysgol hynod o lwyddiannus ac yn paratoi nifer fawr o blant Cymraeg a di-Gymraeg ar gyfer Ysgol Bryntaf.

Athro oeddwn i, wedi treulio cyfnodau yn Aberdâr a Chaerdydd, ac yna ym 1978, cefais fy mhenodi yn Gyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hanes y Mudiad cyn hynny yn gyfarwydd; fe'i sefydlwyd ym 1971 ac wedi hynny sefydlwyd nifer o gylchoedd meithrin ar hyd a lled Cymru o dan ofal Bethan Roberts, Emyr Jenkins, Cennard Davies, Hywel D. Roberts a nifer eraill.

Mae'n rhaid cyfaddef mai blynyddoedd anodd oedd y rhai cyntaf serch y gefnogaeth ac felly y bu am ddwy flynedd. Ym 1981 cafodd Gwilym ei ethol yn Gadeirydd. Dwy flynedd ar y tro fel rheol oedd cyfnod y gadeiryddiaeth ond oherwydd anhawsterau bu i Gwilym gadeirio am ddwy flynedd ychwanegol, pedair mlynedd i gyd. Roedd hwnnw yn gyfnod o gynnydd a datblygiad sylweddol. Cynhaliwyd cyfarfodydd niferus yn Aberystwyth a gan fod Gwilym yn dysgu yng Nghaerdydd roedd gofyn i mi ei godi o'r ysgol ar derfyn dydd a'i gludo yn ôl ac ymlaen i Aberystwyth. Siwrneiau diddorol iawn oedd rheini, yn rhoi cyfle i ni drafod llu o faterion ynglŷn â'r Mudiad. Roedd brwdfrydedd Gwilym yn hysbys i bawb ond yn ychwanegol at hynny roedd ganddo'r personoliaeth a'r gallu i gadw pawb yn gytûn ar hyd a lled y wlad. Ar y pryd roedd angen i brif Swyddogion y Mudiad ymweld â'r Swyddfa Gymreig, fel yr oedd hi bryd hynny, gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, adran hollol Seisnig ei naws, a dim diddordeb o gwbl yn yr iaith. Ystyriwyd y Mudiad fel corff oedd yn darparu gwasanaeth cymdeithasol ac roedd unrhyw arian i'w glustnodi ar gyfer y pencadlys a dim i'w drosglwyddo i'r Cylchoedd. Roedd nifer yn edliw hynny gan ddweud bod angen dirfawr am gefnogaeth ar lawr gwlad. Yn ffodus bu tro ar fyd pan oedd Gwilym yn Gadeirydd ac fe glustnodwyd grant sylweddol ar ein cyfer ac yn ei dro bu hynny yn fodd i sicrhau cynnydd yn y gwaith. Roedd y cyfnod hwn yn drobwynt yn hanes y Mudiad ac roedd Gwilym yn ganolog i'r cyfan. Meddai ar ddawn i lywio cyfarfodydd y Mudiad yn arbennig o hwylus ac roedd ei bersonoliaeth hawddgar a'i allu i lywio'r cyfarfodydd trwy ganiatau pawb i gael dweud ei ddweud yn golygu symud ymlaen yn unfrydol. Onibai am Gwilym mae'n anodd dyfalu beth fyddai wedi digwydd o ran ein datblygiad. Alla i ond diolch i Gwilym am ei gefnogaeth bersonol a'i gyfraniad i'r achos. Mae gennyf edmygedd dibendraw am ei waith a'i frwdfrydedd. Diolch Gwilym am yr holl atgofion.

---

## Teyrnged Bryan James

O'n i ddim yn ei nabod e ar y pryd ond yn y 70au cynnar, a minnau'n athro Cymraeg ail-iaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd Gwilym Roberts yn enw cyfarwydd i fi. Roedd wedi ennill enwogrwydd fel athro ail-iaith llwyddiannus - a hynny ar sail ei frwdfrydedd, ei egni di-flino a'i ddycnwch di-ildio a digyfaddawd. Hyn oll â gwên hawddgar ar ei wyneb bob amser. Yn wir, roedd ganddo enw am fod yn gymeriad go unigryw! Ar gyrsiau ail-iaith yn Llangrannog cofiaf bod dull dysgu Gwilym yn destun siarad – ac edmygedd. Roedd yna dynnu coes, hefyd, fel y stori am Gwilym ar draeth Llangrannog un tro yn gweld rhywun allan o'i ddyfnder yn y dŵr yn chwifio ei freichiau ac yn galw am help. Dyma Gwilym, oedd yn nofiwr cryf, yn nofio allan ato a gofyn iddo, "Ydach chi'n siarad Cymraeg?" – fel 'se hynny yn amod iddo gael ei achub!

Ymhen amser, ar ôl symud i fyw i Gaerdydd, des i wybod mwy amdano – am yr holl weithgareddau dros y Gymraeg a enillodd iddo gymaint o glod ac anrhydeddau haeddiannol. Mae hyn i gyd wedi ei gofnodi yn ei gyfrol hynod ddarllenadwy a phwysig, *Dros Ysgwydd y Blynyddoedd.* Serch hynny, trwy gyfrwng *Y Dinesydd* y des i i'w nabod yn bersonol.

Fel un o'r golygyddion misol, o'n i'n derbyn ambell bwt o newyddion neu stori gan Gwilym mewn llawysgrifen bron yn annarllenadwy! Codi'r ffôn, wedyn, i gael dehongliad - a sgwrs ddifyr i ddilyn. Ymhen peth amser, yn arbennig ar ôl ymddangosiad 'Colofn GR', rwy'n siŵr bod sawl golygydd wedi diolch i'r drefn bod Julie Jones (a diolch yn fawr iddi am ei gwasanaeth) wedi cytuno i deipio ei holl gyfraniadau! Tipyn bach o *understatement* fyddai dweud bod Gwilym yn *technophobe* ond ta waeth am hynny, y neges oedd yn bwysig ac roedd honno yn werth ei chael bob tro.

Er mwyn dangos ychydig o gefnogaeth i'r Papur Bro fe es i i Gyfarfod Blynyddol yng nghapel Bethel un tro, a Gwilym yn cadeirio. Roedd ei frwdfrydedd yn heintus a chyn bo hir ron i'n un o'r pwyllgor bach ffyddlon oedd yn cwrdd yn y festri. Dyna ddechrau cyfnod o gyfeillgarwch clòs a diffuant a barodd hyd y diwedd.

Mae'n amheus gen i a fyddai'r *Dinesydd* wedi goroesi heb arweiniad Gwilym. Soniais ar y dechrau am ei egni a'i ddycnwch. Dyna'r elfennau, ynghyd â'i arweiniad brwd a chymhellgar, a welodd *Y Dinesydd* yn dal ei dir mewn cyfnod digon anodd tua chanol y 2010au pan oedd argraffu traddodiadol yn wynebu her y byd digidol newydd. Yna, pan oedd newidiadau mawr yn anorfod, fe gamodd Gwilym yn ôl o fod yn Gadeirydd ond fe barhaodd yn aelod brwd o'r pwyllgor gan gefnogi'r datblygiadau digidol gant y cant ynghyd â chyfrannu'n adeiladol at ddiwygio golwg a chynnwys *Y Dinesydd*. Gwn fod Gwilym wrth ei fodd o weld criw o bobl newydd ac ymroddgar wedi ymuno â ffyddloniaid y pwyllgor a bod dyfodol Papur Bro hynaf Cymru i'w weld mewn dwylo da.

Fel Dinasyddion fe welwn ni eisiau GR, a'i golofn fisol. Fe welwn ni golli gwron o Gymro.

## Atgofion Gwen Emyr

Y tro cyntaf y gwelais Gwilym Roberts oedd mewn gwersyll yn Llangrannog pan oeddwn yn un ar ddeg oed, a bu'r cyfarfyddiad hwnnw a'r atgofion yn gychwyn i'n sgwrs hyd ddiwedd ei oes hir. Cofiai enwau'r disgyblion oedd dan ei ofal, ac yn wir – yng nghinio pwyllgor y *Dinesydd* yn Llandaf ar 1 Gorffennaf 2025, roedd wrth ei fodd yn rhannu bod un o'r cyn-ddisgyblion hynny wedi teithio gryn bellter i ymweld ag ef ac eisiau diolch iddo am ei ysbrydoli pan oedd yn ifanc.

Yr ail gysylltiad oedd gwaith ymhlith siaradwyr newydd y Gymraeg pan symudais i fyw i Gaerdydd yn 1999. Roedd y pwyllgorau dan ei arweiniad yn hwyliog, a'r nod bob amser oedd pontio rhwng y dysgwyr a'r siaradwyr iaith gyntaf.

Wedi imi ddarllen ei hunangofiant, *Dros ysgwydd y blynyddoedd*, 2024, anfonais lythyr ato i ddiolch am ei gyfraniad pellgyrhaeddol. Ac yn unol â'i gymeriad cydwybodol, cefais ateb ganddo gyda'r troad ar ffurf llythyr dwy ochr i dudalen A4 yn ei lawysgrifen. Yn y llythyr hwnnw, ymhelaethodd am y rhai yr oeddwn wedi eu henwi yn fy llythyr ato.

Ond yr atgof pennaf sydd wedi aros gyda mi yw'r cyfoeth a ddaeth i'n rhan o'n hymwneud â thrigolion y Wladfa ym Mhatagonia. Yn wir, ar ddiwedd noson Cymdeithas Cymry Ariannin yng nghapel Bethel y llynedd, wedi i'r arlunydd Meirion Jones sôn am ei gyfrol ar Batagonia, rhannodd Gwilym â mi ei fod yn mwynhau darllen cyfrol o waith fy mam, Mair Eluned Davies (1929-2023), sef *Cerddi ac Ysgrifau*, cyfrol meddai a roddais iddo (er nad oeddwn i'n cofio gwneud hynny), ryw ugain mlynedd yn ôl. Mae ysgrif yn y gyfrol honno am ymweliad fy rhieni â'r Wladfa yn 1975 am chwe wythnos, cyn i'r Wladfa ddod yn gyrchfan boblogaidd. Gofynnodd Gwilym i mi a John alw i'w weld, gan yr hoffai sgwrsio ymhellach, ac addewais wneud hynny. Gofynnodd unwaith eto i ni ymweld ag ef yn dilyn achlysur dathlu pen-blwydd yr Ysgol Feithrin yn 60 oed yng nghapel Bethel, Rhiwbeina, ac roeddem yn edrych ymlaen at rannu ymhellach.

Felly, pan ddarllenais yn *y Dinesydd* fod Gwilym yn Ysbyty'r Mynydd Bychan yn cael cyfnod i atgyfnerthu (yn dilyn cwymp yn ei gartref), roedd yn rhaid ymweld ag ef yn ddiymdroi. Ffoniais yr ysbyty ar f'union, ac wedi cyrraedd a chyfarch Shirley Williams a Mair Dyfri, oedd newydd fod yn ei gwmni, dyma ddeall fod y diwedd yn agos ac na fyddai yn hir arno cyn ymadael. Diolchais i'r ddwy a chefais fy nhywys gan nyrs i'r ward.

Eisteddai Gwilym ar erchwyn ei wely ger y ffenest, a chawsom sgwrs oedd yn hynod werthfawr i mi. Roedd ei feddwl yn glir. Diolchodd eto am y gyfrol *Cerddi ac Ysgrifau*. Yna dywedodd fod y diwedd yn agos ac na fyddai ef yn dychwelyd adre y tro hwn. Gafaelais yn ei ddwy law, a chytunodd imi ddweud gair o weddi. Yna gofynnodd imi aros gan fod y diwrnod yn hir, meddai, ac esboniodd y byddai'n arddywedyd ar dâp ei lith nesaf i'r *Dinesydd* gan fod ganddo awydd rhannu'r hyn oedd ar ei feddwl. Gofidiai am naïfrwydd y Cymry oedd yn caniatáu i nifer o'n myfyrwyr adael Cymru i astudio heb gael digon o gymhelliad i astudio yng ngholegau Cymru. Rhennais ei ofid a'i gonsérn, a chofiais fod Havard Gregory, ar dro'r ganrif, wedi mynegi consérn tebyg. (Gweler sylwadau Gwilym am hyn yn ei golofn olaf ond un yn *Y Dinesydd*, Hydref 2025.)

Cyn ffarwelio, canmolodd Gwilym ffyddlondeb ei gyfaill Alun Guy a'i ymweliadau dyddiol ag ef yn yr ysbyty. Wrth imi sylwi fod ei gof mor glir a'i sgwrs mor eglur, meddyliais wrth ffarwelio y gallai ein sgwrsio barhau, ond ymhen pedwar diwrnod ar 4 Tachwedd 2025 bu farw. Chwith yw meddwl na chawn barhau i fwynhau sgwrsio ag ef na darllen ei golofn yn *Y Dinesydd*.

---

## Gair gan Carole Bradley

Pan ddechreuais ddysgu Cymraeg nôl yn yr 80au, roedd enw Gwilym Roberts yn codi bob tro roedd digwyddiad yn cael ei drefnu i ddod â siaradwyr newydd a siaradwyr rhugl ynghyd. O dwmpath dawns i Sadwrn Siarad, Gwilym oedd wrth y llyw. Ond pwy oedd y dyn yma? Cwrddais ag e o'r diwedd pan es i i weithio yng Nghylch Meithrin Rhiwbeina. Gwilym oedd wedi bod yn allweddol yn sefydlu'r Cylch, yn cadeirio'r pwyllgor, ac roedd un swyddogaeth bwysig arall gyda fe. Gwilym oedd yn mynd i mewn i'r Cylch bob bore ar ei ffordd i'r gwaith i droi'r gwres ymlaen. Caredig iawn. Roedd am sicrhau bod y neuadd yn gynnes erbyn i'r plant gyrraedd. Diolch Gwilym, am eich holl waith dros y Cylch a'r iaith.

## Englyn Coffa

**Gwilym E. Roberts**

Gan warchod, fe warchododd yr heniaith
a'i rhannu o'i wirfodd;
ac o'i freuddwyd gwefreiddiodd
dorf faith â'r heniaith yn rhodd.

*John Emyr*

**Englyn a gyflwynwyd i Gwilym Roberts ar ei ben-blwydd yn 90 oed fis Chwefror llynedd.**

Doeth ei air fel cadeirydd, a difyr
yw'n dyfal golofnydd,
a'i naws rasol, siriol sydd
yn ased i'r *Dinesydd*.

*Eirian Dafydd*

## Atgofion Sian Morgan Thomas

Merch ysgol oeddwn pan ddês i gysylltiad gynta â Gwilym. Prin iawn oedd cymdeithasu yn y Gymraeg yn ein harddegau ar y pryd yng Nghaerdydd, dim ond ambell i grŵp o ffrindiau capel yn dod at ei gilydd i chwarae ping-pong (tenis bwrdd) ar nos Wener yn y Tabernacl.

O dipyn i beth dyma grwydro ymhellach a thynnu i mewn ddisgyblion Chweched Dosbarth o ysgolion oedd yn cynnig Cymraeg fel pwnc i ddysgwyr. Cawsom groeso yn Nhŷ'r Cymry, Gordon Road, canolfan boblogaidd a phrysur i amryw gymdeithasau a gefnogai'r iaith, fel yr ysgol fore Sadwrn, Plaid Cymru a'r Cymrodorion.

Dyma lle 'rwy'n credu y ganwyd y syniad i sefydlu Aelwyd yr Urdd drwy ysbrydoliaeth Gwilym. Fe dyfodd nifer y criw aelodau yn gyflym a daeth angen cartref mwy o faint arnom. Trwy egni a brwdfrydedd ddi-ball Gwilym cafwyd ystafell yn Charles Street, yng nghanol y ddinas, ac yn agos at lefydd i dorri syched rhai ohonom ac i fwynhau cerddoriaeth heintus y cyfnod, ac oedi tan y bws olaf.

Symud eto i ysgoldy West Grove lle 'roedd digon o le i gynnal chwaraeon a dawnsfeydd bywiog ac ymarfer côr. Yn dilyn llwyddiant ysgubol yr Aelwyd penderfynwyd chwilio am gartre' mwy parhaol ac addas.

Daeth adeilad y Methodistiaid yn Heol Conwy yn wag a bu ymdrechion niferus er mwyn codi arian i brynu'r adeilad ac i'w addasu ar gyfer holl weithgareddau'r Urdd, gan gynnwys ystafelloedd pwyllgorau ac ati, ac Ysgol Feithrin Llandaf.

Diolch iti, Gwilym!

*Rhai o'r gweithgaredddau a gynhaliwyd yng nghartref Sian Thomas i godi arian at brynu ac addasu adeilad yn Heol Conwy i fod yn gartref i'r Urdd.*


STONDINAU: GWAITH LLAW, TEISENNAU, POTELI, DEUNYDD YSTAFELL YMOLCHI.

CYSTADLEUAETH GWISG FFANSI
PLANT 5–7 A 8–10 (THEMA AGORED)

CHWAREUON.
TÊ, BWYD.

I YMDDANGOS
Yr Eirlysiau a Huw Jones
PARTI DAWNS YR AELWYD

ARDDANGOSFA DDILLAD O DDEFNYDD CYMREIG

TELYNAU GWALIA: JOHN THOMAS, GWAELOD-Y-GARTH.



# Bwytai Merch y Ddinas

## Ogof, Treganna

**Lowri Haf Cooke**



Blwyddyn newydd dda bawb! Gobeithio wir i chi gyd gael Ionawr gwych, a bod eich Chwefror yn plesio hyd yn hyn. Rhaid dweud – serch fy enw canol – mod i'n ffan enfawr o dymor y gaeaf, gan olygu fy mod i, hyd yma, wedi 'gaeafu' mewn cryn steil. Nawr, dwi ddim yn sôn am fynd ar y *piste* ym mynyddoedd yr Alpau, nag unrhyw hwyl sy'n mynnu gwisgo sodlau swish. Dwi'n sôn am gydnabod manteision y tymor tywyll hwn, a chofleidio'r arth fach fewnol sydd wir angen saib! Cyfle felly i atgyfnerthu a dal fyny ar fy nghwsg; cynnau canhwyllau, gwisgo llopanau a siwmperi gwlân Fair Isle. Darllen yn y bath a bwyta'n dda, ac a hithe'n dymor seremonïau y gwobrau ffilm, cael mynychu'r sinema. Gorau oll, cyfuno sawl peth a dweud y gwir, fel mwynhau gwledd gofiadwy wedi trip i'r fflics. A dyna yn wir a wnes i toc ar ôl dathlu'r Calan, pan brofais i fwyty newydd Ogof yng Nhreganna.




Roedden ni newydd fod yn gweld ffilm *Hamnet* yng nghanolfan gelfyddydau Chapter; myfyrdod bwerus sy'n adeiladu'n raddol at grescendo hynod emosiynol. Roedd y lle dan ei sang, a phawb dan deimlad mawr, ac ro'n i'n falch i mi archebu bwrdd yn Ogof ar Heol y Brenin gerllaw. Asiodd blasau gaeafol y fwydlen 'seren wib' â naws y cynhyrchiad dwys i'r dim, gan gynnig cydbwysedd gwych rhwng y chwerwfelys, hallt a sur, ynghyd â'r pleser o brosesu'r ffilm, a sawru sgwrs dda. Pa flasau gaeafol oedd mor berffaith addas felly ar noson mor rewllyd yn Nhreganna? *Fritters* nionyn a chorbwmpen gyda chaws glas Trefaldwyn, a salad betys, oren, radicchio a chnau cyll. Yna prif gwrs cysurlon o goes eidion blasus iawn, gyda phanas rhost, hufen mwstard ar wely o *pearl barley*, sef haidd gwyn. Afraid dweud, roedd hi'n chwip o noson dda, ac roedd y croeso Cymraeg yno'n gynnes iawn. Fe blesiodd y gwin naturiol (Pinot Blanc o Alsace, a Syrah o Ardèche) yn fawr, ac roedd y byrddau'n llawn bwrlwm o'n cwmpas yn llawn. Hyfryd iawn!

Alex Vines yw'r cogydd medrus sy'n arwain y tîm, ar y cyd â Siôn Iorwerth, sy'n arebigwr gwin. Tan yn ddiweddar bu Alex yn cynnal swperau dros dro yn *diner* cŵl Hard Lines, wedi cyfnod ffurfiannol yng ngheginau amrywiol Llundain cyn dychwelyd adre i'w filltir sgwâr. Yn wir, ag yntau'n wreiddiol o Bontcanna, mae llawer o'r llysiau yn deillio o'i ardd ef - a gardd ei fam – ynghyd â chyflewad cyson gan Pawel, o stondin Paul's Organic Veg, ym marchnad ffermwyr Glanyrafon.

Yna dychwelyd i Gymru o Ganada wnaeth Siôn, er yn wreiddiol o Lansteffan yn Sir Gâr. Datblygodd ei angerdd ef am win trwy ei gyfaill bore oes Joel Wright - efallai y cofiwch chi far gwin naturiol Wright's Wines yn Arcêd y Castell, a gaeodd toc ar ôl y pandemig. Wel, bu Siôn, ar y pryd, yn rhedeg bar gwin naturiol o'r enw Juice Bar yn ninas Vancouver, cyn penderfynu dychwelyd i Gymru i fagu teulu. Mae Caerdydd yn wir ar ei hennill, yn fy marn i, diolch i'w arweiniad hawddgar, di-rodres i flasau gwinoedd naturiol cwbl amrywiol. O ran yr 'Ogof' fwyd a gwin ei hun, mae na hanes anrhydeddus i'r gofod ar Heol y Brenin, gan mai yno y safai bwyty Catalanaidd La Cuina am flynyddoedd mawr – ynghyd â bwyty Patagonia cyn hynny, a llecyn Eidalaidd Poca tan yn ddiweddar iawn.

Arhosodd y noson yn y cof ar hyd mis Ionawr, wrth i mi ddychwelyd at y gaeafu. Ces i nghyffwrdd yn wir gan ffilmiau teimladwy o fri, *Sentimental Value* a *Train Dreams yn eu plith*, a bobol bach, sôn am emosiwn pur. Tan, un prynhawn Gwener ar ddiwedd y mis, ges i nenu yn ôl i'r Ogof, i brofi blas o'r fwydlen ganol dydd. Mae'r dewis dros ginio ychydig yn ysgafnach, gan gynnwys brechdanau, a seigiau bach rhatach, ac wrth gwrs yr un dewis rhagorol o win (glasied o Viognier ffres o Ardèche aeth â hi). A chyda'r tywydd yn dal i frathu, dewisais gawl Portiwgeaidd, Caldo Verde, gafodd ei weini gyda thafell o focaccia cartref. Dwi'n sicr na wnewch chi synnu i glywed i'r cinio daro deuddeg, gan gynnig coflaid fawr gynnes i'r galon. Dwi wir o'r farn mai'r ateb i bob helbul byd yw powlenaid da o gawl cartref, ac mae'r 'caldo' cysurlon hwn yn cynnwys tatws, nionod a garlleg, cabatsien (neu sbigoglys) a thamaid o gig chouriço. Dywedai'r cogydd Michelin José Avillez o Lisbon i lwyaid yn unig o'r cawl traddodiadol hwn ei gyffwrdd i'r byw, hyd at

ddagrau. Dwi’n deall i’r dim. Catharsis mewn powlen. Jyst y peth sydd ei angen ganol gaeaf.

Gair baich o rybudd; peidiwch â siomi os na welwch chi’r Caldo – neu’r goes eidion, na’r *fritters* corbwmpen - ar y fwydlen pan ewch i yno wedi darllen hwn! Cofiwch, da chi, am natur dymhorol y fwydlen, sy’n dwyn hen lwynog R. Williams Parry i gof. ‘Digwyddodd, darfu, megis seren wib.’ Diolch am bob ysbrydoliaeth – a blasau cyfoethog y gaeaf - ddweda i. Ymlaen felly gyfeillion, i’r Ogof ar eich union, gan wireddu pob chwant ym mis Chwefror!


Ogof, 11 Heol y Brenin, Treganna CF11 9BZ www.ogofcardiff.co.uk

*Gwledd*, *Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke – i gyd ar werth yn eich siop lyfrau Cymraeg lleol a www.gwales.com



# Angladd Terry Yorath

Braint fawr i Gôr Meibion Taf oedd derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngwasanaeth angladdol Terry Yorath yn Leeds ar 26 Ionawr. Bu farw cyn-gapten a rheolwr tîm pêl-droed Cymru yn dilyn salwch byr yn gynharach yn y mis yn 75 oed. Bachgen o Gaerdydd oedd Terry ond ymgartrefodd yn Leeds yn ddyn ifanc er mwyn dilyn ei yrfa bêl-droed. Er hynny ni phallodd ei falchder o fod yn Gymro na'i ymrwymiad i Gymru. Cynrychiolodd ei wlad 59 o weithiau rhwng 1969 a 1981 cyn mynd ymlaen i reoli y tîm cenedlaethol rhwng 1988 a 1993. Roedd hi'n briodol felly mai côr meibion Cymraeg o Gaerdydd gafodd yr anrhydedd o gyflwyno'r eitemau cerddorol yn y gwasanaeth.




Gyda baner y ddraig yn hawlio lle amlwg yn Eglwys Babyddol The Immaculate Heart of Mary cludwyd yr arch i'r eglwys i gyfeiliant *Hen Wlad fy Nhadau*. Mewn gwasanaeth hynod ystyrlon a theimladwy yr emyn cyntaf oedd *Cwm Rhondda*. Aeth y côr yn ei flaen i gyflwyno *Ar Hyd y Nos* ac yna *Danny Boy*, er cof am Daniel, mab Terry a fu farw'n ddisymwth yn 1992 ac yntau ond yn 15 oed. Daeth y gwasanaeth i ben gyda *You'll Never Walk Alone*, cân sydd nid yn unig yn gysylltiedig â chlwb pêl-droed Lerpwl ond hefyd â thrasiedi y tân yn Valley Parade, cartref Bradford City. Lladdwyd 56 o gefnogwyr y diwrnod hwnnw ym mis Mai 1985 ac anafwyd Terry wrth iddo geisio achub cefnogwyr o'r fflamau. Mynychodd Terry bob un o'r 56 angladd.

Mewn derbyniad yn stadiwm Elland Road, cartref Leeds United, roedd cyfle gwerthfawr i aelodau'r côr gwrdd â'r teulu a'u ffrindiau a rhannu atgofion am un o arwyr pennaf y bêl gron yng Nghymru. A chyn y daith hir nôl i Gaerdydd roedd un cyfle arall i ddathlu bywyd Terry Yorath mewn cân. Gyda *Blaenwern* a *Gwahoddiad* daeth clo ar ddiwrnod a fu'n orchwyl trist ond yn brofiad bythgofiadwy a'r cwlwm rhwng De Cymru a Swydd Efrog nawr yn dynnach fyth.

.



# Cymrodorion Caerdydd

Yma gwelir y cyn lywydd y Dr Dylan Foster Evans yn trosglwyddo cadwyn Cymrodorion Caerdydd i lywydd tymor 2025-26 sef yr Athro Bill Jones. Yn anffodus bu rhaid cynnal y seremoni hon yn archifdy’r brifysgol eleni tu ôl i ddrysau caeëdig. Ond pwy a ŵyr, efallai ceir ei gweled eto ar ysgwyddau Bill Jones yng Nghinio Gŵyl Dewi’r Cymrodorion fis Mawrth 12fed yn yr Hen Lythyrdy yn Sain Ffagan.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaethau'r Nadolig**

**Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul**

Yn ystod gwasanaeth fore Sul, 14 Rhagfyr, cafwyd cyflwyniad gan blant yr Ysgol Sul o stori'r geni. Roedd yn ein tywys mewn gair a chân tuag at y crud ym Methlehem. Diolch i Liz, Sylvia a phawb oedd ynghlwm wrth y gwaith paratoi.

**Carolau'r Cilgant**

Ar 17 Rhagfyr, cynhaliwyd y gwasanaeth carolau dwyieithog blynyddol ar gyfer gweithwyr y swyddfeydd sydd o amgylch yr eglwys. Hyfryd oedd cael croesawu nifer dda, y cyfarwydd a'r newydd. Diolch i aelodau Cylch Dewi am eu holl waith o baratoi a gweini'r lluniaeth dilynol yn y neuadd.

**Gwasanaeth Naw Llith a a Charol**

Cynhaliwyd y gwasanaeth Naw Llith a Charol ar nos Sul, 21 Rhagfyr, yng ngolau canhwyllau, gyda danteithion tymhorol i ddilyn. Roedd naws hyfryd i'r gwasanaeth a chyfraniad y Côr yn arbennig.

**Gwasanaethau Noswyl Nadolig a Bore'r Nadolig**

Cafwyd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid yn y ddau wasanaeth.

**Gwasanaeth Cristingl**

Diolch i Liz ac aelodau'r Ysgol Sul am eu gwaith o baratoi'r Cristinglau ar gyfer y gwasanaeth yng ngolau canhwyllau nos Sul, 6 Ionawr.

**Cinio Nadolig**

Diolch i Delyth, Shân a Rhys am drefnu ein cinio eleni yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd. Cafwyd pryd blasus, gwasanaeth effeithiol a digon o gymdeithasu braf.

**Digwyddiadau Cerddorol**

Cynhaliodd Cerddorfa Dovetail, sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches, eu cyngerdd ddiwedd tymor fore Iau, 11 Rhagfyr ac ar 13 Rhagfyr, cynhaliwyd cyngerdd o gerddoriaeth Nadoligaidd gan Gôr Polifonig Caerdydd.

**Casgliadau at elusennau dros gyfnod y Nadolig**

Stondin Cynnyrch Cartref - £263.00 i'r Ystafell Fyw. Casgliadau Gwasnaethau'r Nadolig – £539.40 i'r Lloches Nos. Cristingl - £197.50 i Dŷ Hafan. Casglu nwyddau - 28kg a £60.00 i'r Banc Bwyd

**Cymdeithasu: Y Panto**

Cafwyd noson llawn chwerthin a mwynhad ar 2 Ionawr yn y Panto. Diolch i Delyth am drefnu ac i Sylvia am y losin.

**Coffi a Chlonc**

Roedd nifer dda yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, fore Sadwrn, 17 Ionawr.

**Cloch Dewi.**

Diolch i Wyn am ei waith caled a graenus gyda'r rhifyn cyfredol o Gloch Dewi.

**Llongyfarchiadau**

Croeso i Harri Tôn, ŵyr newydd Erith ac Alun Davies. Dymunwn y gorau i'r teulu.

## EBENESER

**Oedfa ddwyieithog**

Ymunodd aelodau Ebeneser â'r Eglwys Fethodistaidd bnawn Sul, 21 Rhagfyr, i gynnal oedfa ddathlu ddwyieithog gyda darlleniadau, carolau ac eitemau cerddorol. Cafwyd myfyrdod gan weinidog yr Eglwys Fethodistaidd, Evelyn Bahjai. Cyfrannwyd £200 yn y casgliad i'w basio ymlaen i Gymorth Cristnogol.

**Bore Nadolig**

Hyfryd oedd cael cynulleidfa dda fore Nadolig i ddathlu geni'r Gwaredwr, trwy garolau a gair gan Alun. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael dangos un o'u hanrhegion. Cynhaliwyd casgliad a chyfrannwyd £153 tuag at elusen y Samariaid.

**Bardd o fri!**

Cynhaliwyd cystadleuaeth gan Faer Penarth cyn y Nadolig, a'r un ddaeth yn fuddugol oedd Mali Gwyn Ellis, merch i Bethan a John Ellis, ac wyres i Gill a Gethin Lewis. Llongyfarchiadau enfawr iddi.

**Cleifion**

Rydym yn cofio'n dyner am y rhai sydd wedi derbyn triniaeth neu sydd o dan ofal meddygol. Cofiwn am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal. Dymunwn wellhad buan ac adferiad iechyd i bob un sy'n teimlo'n anhwylus.

**3ydd mab**

Croeso i Caleb Tomos Llwyd, a anwyd ar 29 Rhagfyr, yn drydydd mab i Cynan a Rachel a brawd bach i Seth ac Efan. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

**200 mlwyddiant**

Mae 2026 yn flwyddyn arwyddocaol i Ebeneser gan ein bod yn dathlu ein pen-blwydd, fel eglwys, yn 200 oed. Bydd cyfle inni ddathlu'r garreg filltir hon mewn amrywiol ffyrdd. Bydd oedfa ddathlu, am 3.00 ar ddydd Sul 1 Mawrth, yng nghapel y Methodistiaid, Yr Eglwys Newydd. Mae gweithgareddau eraill hefyd ar y gweill. Dewch i ymuno gyda ni yn y dathlu.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**


Chwefror 2026:

1 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion
8 – Sian Meinir
15 – Allan Cook [Dim YS]
22 – Parchedig Gethin Rhys

Mawrth:

1 – Oedfa Gwyl Dewi yr Ysgol Sul
8 – Oedfa Gymun - Delwyn Sion

Nododd y Swyddfa Dywydd ar ddechrau'r flwyddyn newydd fod 2025 yn drydydd ar restr blynyddoedd cynhesaf ein byd, ers dechrau cadw cofnodion yn 1850. 2024 a 2023 sydd ar dop y rhestr. Allyriadau nwyon "tŷ gwydr" sydd yn gyfrifol am y cynnydd yn y tymheredd, a ninnau fel deiliaid sydd a'r cyfrifoldeb o newid pethau! Bydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn rhoi cymorth i ni ystyried ein cyfrifoldebau fel unigolion a chymdeithas trwy nodi 2026 fel "*Blwyddyn yr Amgylchedd*". Cafwyd rhagflas o'r ymgyrch ar dudalen flaen rhifyn cyntaf o'r flwyddyn newydd o "Y Tyst" a bydd pecyn gwybodaeth yn cyrraedd pob capel, gyda deunydd addas "*i'ch arwain trwy adrannau'r ymgyrch*". A'r "Pum Peth Personol" - Dillad / Bwyd / Teithio / Ynni/ Gofal. Y dewisiadau gwahanol a wneir gennym yn ddyddiol fydd asgwrn cefn yr ymgyrch yma, gan ein gwahodd i ystyried "*ein cymhellion wrth wneud y dewisiadau hyn*". Nid "*beth sy'n rhoi'r pleser mwya' i mi*" neu "*beth sy'n fwyaf cyfleus i ni*", ond yn hytrach "*edrych ar y darlun ehangach ac yn ystyried beth allai fod yn llesol i eraill ac i'n byd*" – ie, *"rhoi lles pobl eraill o flaen ein cyfleustra a'n cysur ein hunain, fel ein bod yn ymrwymo o'r newydd i garu ein cymydog fel ni ein hunain".* Adduned blwyddyn newydd y byddwn i gyd yn barod i'w chadw yn 2026 - tybed?


PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 1 Ionawr 1, 2026 50c.

Ymgyrch y Pum Peth Personol – gwneud gwahaniaeth

PUM PETH PERSONOL

Blwyddyn Newydd

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Roedd hi'n braf iawn dod at ein gilydd i addoli yn yr Offeren ar brynhawn gwlyb o Ionawr, a chael mwynhau paned a sgwrs yn y neuadd wedyn.

Yn ystod yr Offeren, clywsom lythyr bugeiliol oddi wrth Archesgob Mark O'Toole at ffyddloniaid yr Archesgobaeth, yn ein hannog o'r newydd, fel aelodau o Gorff Crist, i genhadu yn ein cymdeithas, a cheisio rhannu newyddion da yr Efengyl gyda'r bobl o'n cwmpas.

Ar Sul olaf mis Chwefror, byddwn yn croesawu'r Tad Matt Roche-Saunders i ddathlu'r Offeren. Symudodd y Tad Matt i Gaerdydd flwyddyn yn ôl i ddechrau ar ei rôl fel Cyfarwyddwr Cenhadaeth Ieuenctid, sef gweithio gyda phobl ifanc ac ysgolion uwchradd drwy Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw.

Cafodd y Tad Matt ei fagu ger Aberhonddu ac aeth i'r ysgol yng Nghrughywel. Astudiodd Seicoleg yn y brifysgol cyn astudio ar gyfer yr offeiriadaeth yng Ngholeg Santes Fair yn Oscott, ger Birmingham. Cafodd ei ordeinio yn Awst 2018 ac yn ystod ei gyfnod fel offeiriad plwyf yng ngorllewin Cymru daeth yn rhugl yn y Gymraeg. Mae'n dweud taw ei hoff beth yw eistedd o flaen y tân gyda llyfr da.

Edrychwn ymlaen at ei groesawu i'r Offeren Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant ar Sul 22 Chwefror am 4:30pm.

Eleni byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gydag Offeren yn Eglwys Teilo Sant nos Lun 1 Mawrth am 6pm. Dewch i ddathlu gŵyl ein nawddsant mewn gweddi ac emyn! Croeso cynnes i bawb.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Cafodd nifer o'n haelodau anffawd cyn y Nadolig gyda Peredur Owen Griffiths ac Emyr Roberts yn syrthio a thorri eu pengliniau. Cafodd y ddau driniaethau yn yr ysbyty. Mae'n dda nodi eu bod yn gwella yn raddol. Pob dymuniad da iddynt. Syrthiodd Huw Stephens a thorri ei fraich. Gwellhad buan iddo yntau.

Rydym yn dymuno yn dda i Arthur a Dr Diane Evans sydd wedi symud o'u cartref yn Church Road, Yr Eglwys Newydd, rownd y gornel i Bishops Road. Bydd eu cartref yn Church Road yn dal yn gyfarwydd serch hynny gan fod eu merch Dr Rhiannon Evans, ei phriod Owain a'r plant Rhys, Martha a Fflur wedi symud i mewn yno. Pob hwyl ar y dad-bacio a dymunwn hapusrwydd i'r ddau deulu yn eu cartrefi newydd.

**Cydymdeimlad**

Trist yw cofnodi y bu farw Mrs Llewela Morris ddeuddydd cyn y flwyddyn newydd. Roedd wedi symud i Gartref Gofal yn Y Glais ond yn dal mewn cysylltiad â'r Crwys. Mae ein cydymdeimlad a'n meddyliau gyda'i mab Edward a'i merch Elspeth. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at Mrs Ruth Stephens yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, John Meredith, ym Mangor. Meddyliwn am y teulu.

**Taith Gerdded**

Aeth 'Cerddwyr y Crwys' ar eu taith gerdded flynyddol i gael tipyn o awyr iach ac ymarfer corff wedi holl wledda'r Nadolig. Eleni dechreuwyd ar y daith yn Ysbyty'r Eglwys Newydd ac fe gerddwyd ar hyd y gamlas a llwybr yr hen reilffordd yn yr Eglwys Newydd gan fwynhau bywyd natur allan yn y wlad. Roedd yn daith hynod ddiddorol a diolch i Arthur a Diana Evans am y trefniadau.

**Gwasanaeth Ddechrau Blwyddyn**

Trefnwyd y Gwasanaeth o dan nawdd y Gymdeithas gan Hannah Thomas a Phil Williams a diolch iddynt am wasanaeth hynod fendithiol yn seiliedig ar hanes Caerdydd gan nodi dathlu 70 mlynedd fel Prifddinas Cymru. Daeth nifer dda ynghyd a diolch i bawb, o bobl ifanc a rhieni yr Ysgol Sul i'r aelodau hŷn a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson.

**Trefn Gwasanaethau**

Yr oedfaon am 10.30yb a 6.00yh

8 Chwefror: Parchg Dafydd Andrew Jones

15 Chwefror: Bore: Parchg Glyn Tudwal Jones; Hwyr: Parchg Dafydd Andrew Jones

22 Chwefror: Parchg Aled Edwards

1 Mawrth: Bore: Gwasanaeth Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul Hwyr: Mr Thomas Ellis Williams

## SALEM, TREGANNA

**Nadolig**

Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau i'r oedfaon dros gyfnod yr ŵyl i gyd. Roedd yn hyfryd cael bod yn eich cwmni.

**Gweithgareddau eraill**

**Adran yr Urdd Salem nos Iau 12 Chwefror, 26 Chwefror a 12 Mawrth** rhwng 6.00 a 7.00 i blant oed cynradd, a does dim rhaid i chi fod yn dod i'r capel bob Sul – mae'r adran yn agored i bawb, ac mae prysurdeb mawr wrth baratoi at Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin – 11 Chwefror, 25 Chwefror a 11 Mawrth rhwng 9.45 a 11.15

**Clwb Coffi** – 13 Chwefror a 13 Mawrth rhwng 11.00 a 12.00. Croeso i bawb ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb Llyfrau -** Cynhelir y cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf y mis am 7.30 yng nghartref un o'r aelodau.

**Clwb Oedolion AY** – bob nos Fercher rhwng 5.00 a 6.30. Cofiwch archebu lle drwy Fenter Caerdydd.

**Clwb y Bobl Ifanc -** Mae croeso i bob person ifanc oedran uwchradd. Caiff y nesaf ei gynnal 27 Chwefror – gweithgaredd i'w gadarnhau, ond cafwyd llawer o hwyl yn y cwis ar 23 Ionawr, felly cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth.

Os hoffech ragor o fanylion, dilynwch ni ar Facebook, neu ewch i wefan Salem: Capelsalem.org.

**Medalau Gee**

Roedd yn bleser o'r mwyaf ar fore Sul 18 Ionawr bod yn bresennol pan gyflwynwyd Medalau Gee i Dai a Gill James am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul yma yng Nghapel Salem. Roedd hwn yn gyfle i fynegi ein gwerthfawrogiad am ddegawdau o roi arweiniad i ac o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Rheinallt Thomas ar ran y Cyngor Ysgolion Sul oedd yn cyflwyo'r medalau, ar ôl iddo egluro hanes y Medalau. Cawsom hefyd glywed englynion i'r ddau, a gyfansoddwyd gan un o gydflaenoriaid Dai, sef Dewi Rhisiart, i gofnodi'r achlysur.

Mor weithgar yn rhannu cariad – at Dduw
Ac at ddyn heb eithriad,
Mynnu hwyl a chael mwynhad;
Arwyr sy'n rhoi cyfeiriad.

Arweinwyr sy'n cyfrannu - o'u hafiaith
I'r ifanc gael dysgu
Am rasol gamau'r Iesu;
Rhoi llais a hyder i'r llu.

I nodi eich cyfraniadau - am roi
Mor hael eich bywydau
I'ch ffydd; - dathlwn, a choffau
Ein dyled â medalau.

Llongyfarchiadau i Dai a Gill James gyda'n diolch.



## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org
@MinnyStreet Gweinidog: Y Parchedig Owain Llŷr Evans

**Dechrau blwyddyn newydd**

Daeth dros gant a hanner o bobl i wasanaeth plygain blynyddol yr eglwys yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Werin Sain Ffagan ar brynhawn Sul 11 Ionawr. Roedd y gwasanaeth yn gyfle i fwynhau nifer o gyfraniadau amrywiol mewn awyrgylch hyfryd o addolgar. Mae cefnogaeth frwd yr eglwys i ddarpariaeth a chynhaliaeth yr Ystafell Glyd yn parhau yn 2026.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Dewch i ymuno ag oedfaon croesawgar ac ysbrydoledig ein heglwys. Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 1 (oedfa gymun yn yr hwyr), 8, 15 ac yn oedfa hwyrol 22 Chwefror. Bydd yr oedfa foreol fyrlymus i'r teulu ar 8 Chwefror. Byddwn yn croesawu Marc Jon Williams (Caerdydd) i arwain oedfa bore Sul, 22 Chwefror. Yn ystod oedfaon bore Sul 1, 15 a 22 Chwefror bydd yr Ysgol Sul. Bydd darpariaeth bwrpasol i'r plant hŷn yn PIMS am 17:00 brynhawn Sul, 1 Chwefror ac yn y dosbarth Ysgol Sul ar eu cyfer ar 15 Chwefror.

**Gweithgarwch y mis**

Cynhelir sesiwn Bethania nos Fawrth, 10 Chwefror pan fyddwn yn parhau i ystyried ein bywyd defosiynol. Mae'r sylw ar hyn o bryd ar weddi: hanfodion gweddi; beth yw gweddi ac esiampl Iesu. Bydd y Gymdeithas yn cynnig dwy sesiwn y mis hwn: 3 Chwefror, sef noson 'Wrth fy Ngwaith' yng nghwmni Elen Hughes ac Ifan Patchell ac 17 Chwefror pan fydd Keith Bush yn adrodd hanes Dr William Price yn sefyll ei brawf am losgi corff ei fab.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Llawenydd**

Llawenhawn gyda Dewi ac Angharad Alter ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, merch fach, Mabli Anest. Llongyfarchiadau mawr a phob bendith iddynt fel teulu bach.

**Taith i'r Wladfa**

Yn Bore Siarad Cymraeg mis Ionawr bu Ruth Morgan yn sôn am ei thaith i'r Wladfa. Soniodd am y Cymry cyntaf yn mynd ar long y Mimosa ym 1865 er mwyn cael rhyddid i addoli fel y mynnent, diogelu eu diwylliant a siarad Cymraeg. Bu'n ymweld â llawer o'r lleoliadau hanesyddol fel Y Gaiman a Threlew a theithio ar draws y paith i Gwm Hyfryd yn yr Andes gan gyfarfod â rhai o ddisgynyddion y setlwyr cyntaf a mwynhau traddodiadau a ffordd o fyw trigolion Y Wladfa heddiw. Mae'n amlwg iddi fod yn daith fythgofiadwy ac erbyn diwedd y bore roedd pawb yn gytûn y bydden nhw hefyd yn mwynhau bod yn rhan o daith debyg.

Yn Bore Siarad Cymraeg 14 Chwefror bydd Rhian Williams, sy wedi bod yn llunio croesair *Y Dinesydd* ers blynyddoedd lawer, yn disgrifio'r broses o'u creu.

Cynhelir y cyfarfod yn Hyb Rhiwbina CF148EH.

**Y Plygain**

Nos Sul 4 Ionawr cynhaliwyd y Plygain. Roedd yn fraint croesawu partïon atom i ganu rhai o garolau cyfoethog yr hen draddodiad yma. Ceir sawl fideo o garolau'r Plygain ar y wefan Cwmpawd Plygain.

**Amser Paned**

Mae croeso mawr i bawb sy'n dymuno paned a chyfle i sgwrsio, neu i ymarfer siarad Cymraeg, yn festri'r Tabernacl bob bore Gwener o 10 tan hanner dydd yn ystod y tymor ysgol.

## BETHEL, PENARTH

**Cydymdeimlad**

Ddechrau Rhagfyr daeth ton o dristwch drosom gyda'r newyddion am farwolaeth ein chwaer Eirlys Davies. Er bod ei chystudd yn hir, garw oedd ein dolur oherwydd roedd Eirlys yn un o'n haelodau hawddgar a ffyddlon dros amser hir. Yn ogystal â bod yn gyson ei phresenoldeb mewn oedfaon roedd hi hefyd yn barod iawn ei chefnogaeth i achlysuron eraill, yn enwedig trwy rannu ei diddordeb a dawn gyda chrefftau.

**Cyfarchion**

Anfonwn ein meddyliau twym at Elizabeth yn ei hanhwylder. Deall deall bod haul ar fryn. Cofion cynnes at eraill sy'n wynebu her.

**Ffarwelio**

Bu oedfa 14 Rhagfyr yn un o ddiolch ac o dristwch wrth i aelodau Bethel a'r Tabernacl, Y Barri, fod dan arweiniad ein gweinidog Kevin wrth y Bwrdd Cymun am y tro olaf. Cawsom gyfle i ddiolch iddo am ei hynawsedd a'i genadwri ac i ddymuno'r gorau iddo ar ei ymddeoliad.

Ar Sul olaf 2025 cawsom gwmni Kevin eto i arwain yr oedfa. Cyflwynwyd pregeth rymus yn ein hannog i wynebu'r bennod newydd yn hyderus dan ofal Iesu, yn wynebu sialensau'n ffyddiog.

**Dechrau Newydd**

I agor y flwyddyn newydd cawsom gyfle i groesawu'r Parchedig Dyfrig Rees. Yntau'n ymwybodol o'n sefyllfa, pwyswyd arnom i weld y dyfodol yn daith yn llawn posibiliadau.

Daeth newyddion da ar ddechrau'r flwyddyn o fwriad i sefydlu grŵp crefft yn gyson dan arweiniad Hazel a Jane. Mae'n sicr bydd ysbryd Eirlys yn goleuo.

Ar nos Iau 26 Chwefror yn y capel cynhelir cyngerdd o gerddoriaeth amrywiol gan aelodau o'r grŵp enwog CÔR. Yn dechre am saith yr hwyr, Mynediad am Ddim.

Ar Nos Fawrth 17 Chwefror cynhelir ym Methel noson Grempog i nodi Dydd Mawrth Ynyd a chychwyn Tymor y Grawys.

## TABERNACL, YR AIS

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i Llinos a Cerith ar farw eu tad, David Arfon Williams, a phriod annwyl y diweddar Marian. 'Roedd yn falch o'i wyrion a'i deulu estynedig i gyd, gan sôn yn gyson am ei deulu yn Glynrhedyn, y Rhondda Fach. Cofiwn amdano fel dyn gwylaidd, yn ddarllenwr helaeth, yn hanesydd treiddgar, yn Gymro twymgalon ac yn Gristion diffuant. 'Roedd yn mwynhau chwarae pêl-droed ac yn hoff o gerddoriaeth. Bu'n aelod ffyddlon yn y Tabernacl ac fe'i cofir fel un a werthfawrogodd bopeth. Diolchwn am y fraint o adnabod Arfon ac am ei gael yn ffrind i ni i gyd.

Trist iawn yw cofnodi marw Gwyn Pritchard Jones, gŵr Eirlys, tad Gerallt a Lowri, a chyn-ohebydd i'r *Dinesydd*. Cynhelir gwasanaeth coffa iddo yn y Tabernacl bnawn Llun, 9 Chwefror, am hanner awr wedi tri. Bydd teyrnged iddo yn rhifyn mis Mawrth.

**Llongyfarchiadau**

Dathlwn newyddion da Mari Rogers ar eni ei gor-wyres, Branwen Morwenna, merch fach i Simon a Meg. Llongyfarchiadau i'r teulu oll.

Dymunwn yn dda i Ciarán ac Angharad Spooner wedi eu priodas yn Eglwys Gymraeg Canol Llundain ddechrau Rhagfyr y llynedd. Yn dilyn cyfnod yn Llundain, maent bellach wedi ymgartrefu yng

Nghaerdydd ac mae'n hyfryd cael eu cwmni yn y Tabernacl.

**Cinio Nadolig**


Un o blant y Tabernacl oedd siaradwraig wadd cinio Nadolig Y Gymdeithas eleni, sef Archdderwydd Cymru, Mererid Hopwood. Cafwyd gair o groeso i'r cinio gan fardd arall, Catrin Dafydd, a diolchwyd i Mererid gan Angharad Watkins. Braf oedd clywed Mererid yn adrodd straeon am ei phlentyndod yn y Tab, gan gymryd rhan mewn pantomeimiau yn y festri, cywiro'r barnwr Dewi Watkin Powell yn ferch pum mlwydd oed gan iddo alw ei *handbag* yn bwrs, a chlywed am y dylanwad gafodd y capel arni. Traddodwyd ambell gerdd ganddi, gan rannu ei hangerdd dros heddwch yn y byd.

I ddiolch i Mererid em ei hamser, bydd y Gymdeithas yn gwneud cyfraniad tuag at gofeb heddwch yr Eisteddfod Genedlaethol.

## Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd

Eleni cynhelir y gwasanaeth am 2.00 o'r gloch pnawn Gwener, 6ed o Fawrth 2026 yn Eglwys Dewi Sant, St Andrew's Crescent, Caerdydd CF10 3DD. “Rhoddaf orffwys i chi, dewch” yw thema'r gwasanaeth.

Croeso i bawb. Darperir paned a chacen wedi'r gwasanaeth.









# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

## Clwb Pêl-droed Treganna


Y tîm cyntaf


Yr ail dîm

Mae llwyddiannau, twf a datblygiad tim pêl-droed Clwb Cymric wedi cael eu cyfeirio atynt yn gyson yn *Y Dinesydd* dros y blynyddoedd. Ond, mewn datblygiad sydd yn adlweyrchu twf y gamp yn genedlaethol ac a thwf addysg Gymraeg yn y ddinas, mae yna glwb arall lle mae'r mwyafrif helaeth o'r garfan yn medru'r Gymraeg sef CPD Treganna.

Ffurfiwyd CPD Treganna gan griw o gyn-ddisgyblion Ysgol Plasmawr ac mae'n anodd credu taw dim ond tua 18 mis sydd ers chwarae y gêm gyntaf yn y Cardiff Combination ac am dymor y bu hi! Er gwaethaf y glaw a olygodd fod yna gyfnodau hir heb gemau llwyddodd y tîm i ennill dyrchafiad yn eu tymor cyntaf dan ddwylo medrus eu hyfforddwr Olu. Mae hyn yn dipyn o gamp o ystyried nad yw'n hawdd rhoi tîm at ei gilydd i gystadlu yn erbyn timau sefydledig y ddinas a bod yr aelod hynaf ond yn 24 mlwydd oed.

Ni chymerodd yn hir i air ymledu ymysg cyn ddisgyblion Plasmawr am y clwb newydd ac o ganlyniad i'w dyrchafiad roedd cyfle i sefydlu ail dîm. Pryderai rhai o'r pwyllgor y gallai hyn fod yn dymor yn rhy gynnar ond tawelwyd yr ofnau'n gyflym a bellach mae dros 50 ar lyfrau y clwb.

Ar ddechrau'r tymor roedd y tîm cyntaf yn gobeithio am ddyrchafiad arall tra roedd yr ail dîm yn gobeithio cystadlu yn erbyn timau mwy profiadol. Ni chafodd yr naill dîm ddechreuad arbennig o dda ac yn dilyn gêm drychinebus i'r ail dîm yn erbyn Pentwyn lle collwyd o 9-1 gan gynnwys ildio chwech gôl o gorneli roedd rhai yn rhagweld gaeaf hir o'n blaenau ond i fod yn deg â'r bechgyn wrth iddynt sylweddoli bod rhaid ennill y frwydr gorfforol er mwyn ennill y gêm trodd y colledion yn gemau cyfartal cyn i ni sicrhau ein buddugoliaeth gyntaf yn erbyn Roath Park Rangers ym mis Hydref.

Gyda'r tîm cyntaf yn agos i frig yr adran a'r ail dîm yn mwy na dal eu tir bu'n dymor da hyd yma. Ond fel mae sawl sylwebydd pêl-droed wedi dweud – 'Nid mis Rhagfyr yw'r adeg i fesur llwyddiant tymor.'

Rhaid ystyried fodd bynnag taw nid dim ond ar y cae mae mesur llwyddiant clwb. Fel y soniwyd ar y dechrau mae'r ffaith bod y clwb yn bodoli yn ganlyniad i waith caled y pwyllgor gwreiddiol ac wrth gwrs yr hyfforddwr Olu. Daw heriau i wynebu y clwb yn y dyfodol wrth i griw allweddol o'r ail dîm adael Caerdydd i fynd i'r brifysgol ond mae'n braf clywed disgyblion Plasmawr yn barod yn siarad am eu dyhead i ymuno â'r clwb ar ôl eu arholiadau Lefel A. Yr hyn y mae'r clwb yn cynnig yw cyfle i chwarae pêl-droed gyda ffrindiau ond hefyd i glywed a gobeithio defnyddio'r iaith fel iaith fyw ar ôl iddynt adael yr ysgol. Felly tro nesaf rydych yn cerdded ger caeau Pontcanna ar bnawn Sadwrn ac yn clywed y Gymraeg peidiwch â chymryd yn ganiataol taw Cymric neu Clwb Rygbi Cymru Caerdydd sy'n chwarae!

Gorffennaf drwy bwysleisio nad oes gan y glwb bolisi tebyg i Athletico Bilbao lle mae'n rhaid i chi fod o wlad y Basg (yn ein hachos ni Ysgol Plasmawr) i chwarae i'r clwb. Rydym yn griw croesawgar fel rwy'n siwr y gwnaiff y chwaraewyr sydd gennym o Glantaf gadarnhau!!

Os hoffech fwy o fanylion gallwch gysylltu â'r clwb ar CPDTreganna@outlook.com



## John Parry-Jones sy'n cloriannu perfformiadau diweddar Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Ro'n ni wedi cyrraedd rownd 16 ola'r Cwpan, ac roedd y ffaith bod chwech o dimoedd Adran 2 Gorllewin Canolig yn dal i gystadlu yn adrodd cyfrolau am safon yr adran y tymor hwn. Taith ar hyd yr M4 i Dreforys oedd o'n blaenau, a hwythau yn eistedd yn gyfforddus ar ganol adran 2 Dwyrain Canolig.

Fel sydd wedi bod yn gyson eleni, dechreuodd y bechgyn yn gryf, ac o fewn yr ugain munud cyntaf, ro'n ni wedi agor mantais o 22-0, ac yn llwyr reoli. Eto, nid am y tro cyntaf eleni, tynnodd y bechgyn eu troed oddi ar y sbardun, a chaniataodd hynny i'r tîm cartref groesi am gais i roi gobaith iddynt. Ond eto, cyn yr egwyl, ro'n ni wedi croesi am gais arall, ac roedd y fantais eto'n gyfforddus, 27-7 wrth droi.

Ildiwyd cais yn gynnar yn yr ail hanner, ond bob tro roedd Treforys yn edrych fel pe baent am gwtogi'r fantais, roedd gan y bechgyn ddigon i daro nôl, a ro'n ni'n ddigon cryf i'w cadw nhw hyd braich drwy'r hanner, gyda'r sgôr terfynol yn 32-21. Buddugoliaeth arbennig, sy'n arwain at daith fer i'r Bontfaen yn rownd yr wyth olaf, a chyfle i daro'r pwyth yn ôl yn erbyn yr unig dîm i'n curo ni'r tymor hwn.

Roedd un gêm arall i'w chwarae cyn y Nadolig, a hwnnw draw yn Rhiwbeina, a finne eto'n tybio mai hwn oedd y tro cyntaf i'r tîm cyntaf ymweld â Chaedelyn mewn gêm gynghrair yn ei herbyn. Doedd y tîm cartref heb ennill yr un gêm hyd yma, ac felly wrth reswm roedd digon o hyder wrth gyrraedd y cae. Yn dilyn patrwm yr wythnos flaenorol bron i'r dim, dechreuodd y bechgyn yn gryf, ac erbyn yr hanner, ro'n ni wedi sicrhau'r pwynt bonws wrth agor mantais o 26-0. Roedd tîm Rhiwbeina wedi amddiffyn am eu bywydau, a ro'n ni i gyd yn rhagweld y byddent yn blino, a byddai'r llifddorau'n agor.

Ond ddigwyddodd hynny ddim. Daliodd Rhiwbeina ati, a chroesi am gais haeddiannol, cyn i bac y Clwb ail-ddatgan eu goruchafiaeth i greu dau gais hwyr i sicrhau buddugoliaeth o 36-7. Eto, roedd yn fuddugoliaeth swmpus ar bapur, ond roedd hefyd teimlad bod mwy o fewn gafael y bois, ac efallai y bydd angen bod ychydig yn fwy clinigol drwy ail hanner y tymor. Mae hefyd wedi bod yn amlwg bod y timoedd eraill yn codi eu gêm yn ein herbyn, sydd yn ganmoliaeth i'n cynnydd.

Felly daeth 2025 hynod lwyddiannus i ben, gyda'r Clwb yn ail yn y tabl, ac mewn safle arbennig i frwydro am ddyrchafiad dros weddill y tymor. Mae'n edrych yn bur debyg y bydd y gemau yn erbyn Wattstown a Cardiff Harlequins yn dyngedfennol i ddatrys pwy fydd yn mynd lan. Braf byddai mwynhau rhediad ychydig pellach yn y cwpan hefyd.

Yn anffodus ni fu modd chwarae llawer yn ystod mis Ionawr yn sgîl y tywydd gwael ond llwyddwyd i guro'r Bontfaen ar 17 Ionawr o 31-17.

I gloi, ga'i fanteisio ar gyfle, eto, i hysbysu mod i'n teithio i Sbaen mewn rhai misoedd i ddringo Mynydd Mulhacen yn y Sierra Nevada, er mwyn codi arian ar gyfer Ysbyty Felindre. Mae'n achos arbennig, felly os ydych mewn sefyllfa i gefnogi'r fenter, fe fydda i mor ddiolchgar – gallwch gyfrannu trwy ddilyn y ddolen hon - https://www.justgiving.com/page/john-parry-jones-1. Diolch anferth i'r rhai hynny ohonoch sydd eisoes wedi cyfrannu.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

**Gemau Chwefror**

08/02/2026 CRCC Merched Vs Caernarfon (adref)

14/02/2026 CRCC 1af Vs Ynysybwl (i ffwrdd) CRCC 67s Vs Llanharan (adref) CRCC I'ctud Vs Gogledd Llandaf (adref)

28/02/2026 CRCC 1af Vs Cardiff Harlequins RFC (adref) CRCC 67s Vs Llanishen (adref)

01/03/2026 CRCC Merched Vs Bonymaen (adref)



## 'Gras Bwyd'

Rwy'n siŵr bod y rhan fwyaf o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn gyfarwydd â'r 'gras bwyd' enwog ar ffurf englyn gan W.D. Williams:

O! Dad, yn deulu dedwydd – y deuwn
Â diolch o newydd,
Cans o'th law y daw bob dydd
Ein lluniaeth a'n llawenydd.

Fodd bynnag, tybed faint o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sydd hefyd yn gwybod mai 'gras bwyd' swyddogol Coleg Kellogg, Prifysgol Rhydychen, ydyw?

Coleg Kellogg yw 36ain Coleg y Brifysgol a'r mwyaf o ran niferoedd y myfyrwyr (llawn amser a rhan amser) yn y Brifysgol. Mae'n Goleg i raddedigion yn unig. Er bod nifer o Gymry nodedig wedi arwain gwahanol golegau Rhydychen a Chaergrawnt dros y canrifoedd, roedden nhw, wrth gwrs, yn etifeddu 'gras bwyd' swyddogol eu Coleg gan eu rhagflaenwyr. Pan sefydlwyd Coleg Kellogg ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1990, roedd yr Arlywydd a'r Cymrodyr cyntaf yn gallu penderfynu ar eu 'gras bwyd' newydd eu hunain, a dewisasant englyn enwog W.D. Williams. Am ddewis ysbrydoledig! Nid yw'n syndod mai Cymro Cymraeg oedd Llywydd cyntaf y Coleg, Geoffrey Price Thomas o Faesteg. O blith 'grasau bwyd' holl Golegau Rhydychen a Chaergrawnt, dyma'r unig un nad yw mewn Lladin.

*Christopher Powell*

# Y DIGWYDDIADUR

## Chwefror

**Mawrth, 10 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Elfyn Hughes ar y testun 'Tynnu lluniau gwell (gyda ffôn)', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 2.30pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mercher, 11 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Caerdydd. Sgwrs gan Catrin Wooler yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, rhwng 11.00 a 12.00.

**Iau, 12 Chwefror a Sadwrn, 14 Chwefror**
Polka Theatre a Theatr Iolo yn cyflwyno 'Taclus', ar gyfer plant 3–7 oed, yn Theatr Sherman. Manylion https://www.shermantheatre.co.uk/event/talcus/?lang=cy neu ffoniwch 029-2064-6900.

**Sadwrn, 14 Chwefror**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan Rhian Williams ar y testun 'Llunio croeseiriau', yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Yn rhad ac am ddim. Nid oes angen cofrestru ymlaen llaw. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso.

**Llun, 16 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Llinos Patchel yn siarad am 'Te Ao Maori – Byd y Maori' yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Bydd paned a sgwrs i ddilyn a chroeso cynnes i bawb. Manylion pellach oddi wrth yr Ysgrifennydd, Gwyneth Stephens (penrhiwalltycnap@gmail.com).

**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Keith Bush ar y testun ' "Y gwir yn erbyn y byd" – Dr William Price yn sefyll ei brawf am losgi corff ei fab', am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 20 Chwefror**
Mewn Cymeriad yn cyflwyno Ryland Teifi yn actio 'Waldo: Bardd Dewrder, Bardd Tynerwch' gan Mererid Hopwood, yn Neuadd Llanofer, Treganna (CF5 1FH), am 2.00pm a 7.30pm. Tocynnau www.mewncymeriad.cymru

**Gwener, 20 Chwefror**
Melin yn cyflwyno 'On'd Oedden Nhw'n Ddyddiau Da' am 7.00pm yng Nghlwb yr Earl Haig yn yr Eglwys Newydd. Tocynnau: £20.00 (o siop Iechyd Da, Yr Eglwys Newydd).

**Gwener, 20 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Bydd yr Athro Ann Parry Owen yn siarad ar y testun 'Geiriadura yn y Gymraeg Ddoe a Heddiw' trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso cynnes.

**Gwener, 20 Chwefror**
Clwb Canna yn cyflwyno Geraint Løvgreen a'r Enw Da ac Alis Glyn yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna (CF5 1JD), am 8.00pm (drysau'n agor am 7.30pm). Tocynnau: £15 (o Siop Caban neu drwy ticketsource.co.uk/clwbcanna).

**Llun, 23 Chwefror**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Siwan Rosser (Prifysgol Caerdydd) ar y testun '*Teulu Bach Nantoer* a Chaerdydd'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 23 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan Daniel Roberts o Brifysgol Bangor ar y testun 'Ehangu Mynediad i STEM', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at CymdeithasWyddonol@gmail.com

**Mercher, 25 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Caerdydd. Cinio yn y Butchers, Rhiwbina, am hanner dydd. Rhaid rhoi'r dewis o fwyd a'r taliad i Beth Killen erbyn 11 Chwefror. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Beth (029-2056-6508).

**Iau, 26 Chwefror**
Menter Caerdydd yn cyflwyno 'Laffwyl!' gyda Stifyn Parri, MC Aled Richards, Fflur Pierce a Josh Pennar, yng Nghanolfan Chapter, Treganna, CF5 1QE, am 7.30pm. Tocynnau: £10 ymlaen llaw trwy Fenter Caerdydd neu £12 wrth y drws. : www.mentercaerdydd.cymru

**Gwener, 27 Chwefror**
Cyngerdd Gŵyl Ddewi gyda Merched Plastaf, Jessica Robinson a Chôr Meibion Taf, yn Eglwys St John's, Cilgant Sant Ioan, Treganna (CF5 1NX), am 7.00pm. Tocynnau: £15.00 o Caban neu drwy WeGotTickets.

**Sadwrn, 28 Chwefror**
Brigyn a Penbleth yn Eglwys St John's, Cilgant Sant Ioan, Treganna (CF5 1NX), am 7.30pm. Tocynnau: £15.00 ymlaen llaw drwy WeGotTickets / £17.50 wrth y drws.

## Mawrth

**Llun, 2 Mawrth**
Menter Caerdydd. Mewn Tiwn Gŵyl Ddewi yng nghwmni CANNA Duo, yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 11.30am. Does dim angen tocyn, ond croesewir cyfraniadau wrth y drws. Dewch yn gynnar i fwynhau paned a sgwrs. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch: (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Llun, 2 Mawrth**
Menter Caerdydd. 'Gwanwyn y Beirdd'. Trafod cerddi i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda Bethan Mair trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Pris: £5. Manylion pellach a chofrestru: https://mentercaerdydd.cymru/event/gwanwyn-y-beirdd-sesiwn-zoom-cy

**Mawrth, 3 Mawrth**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni Mari McNeill, Trefnydd Cymorth Cristnogol Cymru, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso.

**Sadwrn, 7 Mawrth**
Ysgol Fore Cymdeithas Carnhuanawc ar lawr cyntaf prif adeilad Cwrt Insole, Llandaf (CF5 2LN). Siaradwyr: Ieuan Wyn Jones ar 'Y Daith o Gymru Fydd i Blaid Cymru'; Keith Bush ar 'Edward Thomas John, A.S.'; ac Arwel Vittle ar 'Gyfraniad Allweddol Mai Roberts at Sefydlu Plaid Cymru'. Cofrestru (£10) am 9.15, i ddechrau am 9.45am.

**Sadwrn, 7 Mawrth**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com

**Llun, 9 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Dathlu'r 75 gyda Keith Bush CB. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA.

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, Manylion ar dud. 2**

# Menter Caerdydd

Mae'r gwyliau hanner tymor yn prysur agosáu a staff Menter Caerdydd wrthi'n trefnu llu o weithgareddau i blant yn ystod yr wythnos. Mae manylion ein cynllun Gofal a'r sesiynau chwarae agored, rhad ac am ddim, Bwrlwm, i'w gweld yn yr hysbysebion yn y *Dinesydd* ac ar ein gwefan. Mae'r gweithgareddau ar gyfer oedolion hefyd yn parhau gyda digwyddiadau newydd yn cael eu hychwanegu at ein gwefan yn rheolaidd. Dyma flas o rai o uchafbwyntiau'r wythnosau nesaf.

**Sgwrs y Mis**

Nos Lun, 23 Chwefror, bydd Dr Siwan Rosser o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn ein cyflwyno i'r nofel *Teulu Bach Nantoer* a'i hawdur Moelona. Yn enedigol o Sir Aberteifi, roedd Moelona yn athrawes yng Nghaerdydd pan luniodd y nofel hon i blant. Ei bwriad oedd cynnig stori swynol a fyddai'n denu plant Cymru i ddarllen Cymraeg a hynny ar adeg pan oedd pryderon am ddyfodol yr iaith ar gynnydd. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhan o gynllun Sgwrs y Mis ar Zoom. Croesewir cyfraniadau o £20 am holl sgyrsiau 2026 neu £5 ar gyfer sgwrs unigol.

**Clwb Oedolion**

Mae ein clwb i oedolion gydag anghenion ychwanegol yn cwrdd bob prynhawn Mercher yn Festri Salem, Treganna. Mae croeso mawr i aelodau newydd a chyfle i ddod â ffrind neu ofalwr gyda chi. Dyma grŵp cyfeillgar sy'n mwynhau canu, chwarae offerynnau a chael hwyl dan ofal eu harweinydd brwdfrydig Robin. (5.00-6.30, bob dydd Mercher. Rhad ac am ddim).

**Laffwyl**

Chapter fydd lleoliad Laffwyl gynta'r flwyddyn ar nos Iau, 26 Chwefror. Sut hwyl gaiff yr MC Aled Richards wrth drio cadw trefn ar y digrifwyr Stifyn Parri, Josh Pennar a Fflur Pierce? Mae tocynnau ar gael am £10 ar y wefan neu £12 wrth y drws. Bachwch eich tocyn nawr cyn iddynt werthu allan!

**Grwpiau sgwrsio**

Nodwch y dyddiadau ar gyfer ein grwpiau sgwrsio yn y gymuned ar gyfer mis Chwefror. Mae croeso i bawb sy'n siarad Cymraeg beth bynnag eich lefel.

Hyb Llaneirwg – bob yn ail fore Mawrth am 10.30 – 10 + 24 Chwefror
Hyb Radyr – bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00 – 11 + 25 Chwefror
Hyb Rhydypennau – bob yn ail fore Iau am 10.30 – 12 + 26 Chwefror
Hyb Rhiwbeina – bore Gwener am 10.30 (Mynediad a Sylfaen) 6 + 27 Chwefror (dim sesiwn yn ystod hanner tymor)
Hyb Y Llyfrgell Ganolog – bob prynhawn Iau am 3.00.

Cofiwch fod manylion am grwpiau sgwrsio annibynnol eraill i'w gweld ar ein gwefan a chynhelir sesiwn sgwrsio fisol ar Zoom ar fore Gwener ola'r mis.

**Gŵyl Ddewi**

Bydd Menter Caerdydd yn rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi ynghanol y ddinas ar ddydd Sul, 1 Mawrth. Cynhelir gweithgareddau amrywiol i'r teulu cyfan gan gynnwys sesiynau chwarae rhad ac am ddim yn ardal BWRLWM yng nghanolfan Dewi Sant, yn ogystal â digwyddiadau cerddorol a thaith chwedlau'r Mabinogi wedi'u trefnu gan FOR Cardiff/Caerdydd AM BYTH. Dewch i ddathlu gŵyl ein nawddsant yn y brifddinas gyda theulu a ffrindiau.

**Mewn Tiwn**

Bydd y dathliadau Gŵyl Ddewi yn parhau bore Llun, 2 Mawrth yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina gyda chyngerdd yng nghwmni CANNA Duo. Edrychwn ymlaen at groesawu'r cerddorion Eleanor Roderick a Rowan Fontaine Kodratoff ar ffidil. Mae'r gyngerdd yn rhad ac am ddim, ond croesewir cyfraniadau ar y diwrnod. Dewch yn gynnar i fwynhau paned a sgwrs o flaen llaw.

**Gwanwyn y Beirdd**

I ddod â'r dathliadau Gŵyl Ddewi i ben, ymunwch â Bethan Mair nos Lun, 2 Mawrth ar Zoom ar gyfer sesiwn Gwanwyn y Beirdd. Cawn gyfle i edrych ymlaen at ddyfodiad y gwanwyn yng ngeiriau rhai o feirdd gorau'r 20fed ganrif gan ddathlu Cymru a Chymreictod. Bydd recordiad o'r sgwrs ar gael felly os na allwch fynychu'r sesiwn fyw, mae dal croeso i chi gofrestru. (7.30yh - £5)

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888



# Rhoi gwyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru



## Helpwch ni i roi haf bythgofiadwy yn un o wersylloedd haf yr Urdd!

Bydd cyfraniadau i Gronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn rhoi profiad llawn o weithgareddau, trafnidiaeth, llety a bwyd i blant a phobl ifanc na fyddai'n cael y cyfle fel arall.

Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth - boed yn fawr neu'n fach, rydych yn helpu i newid bywydau pobl ifanc yng Nghymru.



"Rydym wedi gweld dros ein hunain yr effaith gadarnhaol mae'n gwersyll haf yn ei gael ar ein plant a phobol ifanc mwyaf bregus.

"Dwi'n yn aml yn dweud wrth staff - yng nghanol y rhialtwch, y gweithgareddau, y sioe dalent, y twmpath, y gemau potes a phob dim arall, yn dawel bach rydym yn newid bywydau."

- LOWRI JONES, CYFARWYDDWR GWERSYLL LLANGRANNOG



### Sut i wneud cyfraniad:



- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Tudalen JustGiving: justgiving.com/campaign/cronfacyfleibawb
- Anfon siec at Wersyll yr Urdd Llangrannog yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru

£230 = gweithgareddau, trafnidiaeth, llety a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd.



urdd.cymru/cronfa
@urddgobaithcymru
#UrddiBawb

Cyfrannwch heddiw

"Roedd e mor hyfryd clywed nhw'n siarad am eu profiadau ar y ffordd adref ac roedd yn amlwg wedi rhoi hwb mawr i'w hunan hyder. Am y tro cyntaf, byddan nhw'n gallu dychwelyd i'r ysgol a rhannu profiadau positif o wyliau haf."

- GWARCHODWR



Urdd

Cronfa Cyfle i Bawb